# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 27 Tachwedd 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

## Cyfarfod cyhoeddus

09.30 - 11.00

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - sesiwn dystiolaeth

09.30 - 11.00 (Tudalennau 1 - 83)

Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Vikki Howells AS, Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

Georgina Haarhoff, Cyfarwyddwr Addysg, Llywodraeth Cymru

Ruth Meadows, Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Papurau i'w nodi

11.00

### 3.1 Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

(Tudalennau 84 - 85)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Phrif Weithredwr AaGIC gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### 3.2 Recriwtio a Chadw Athrawon

(Tudalennau 86 - 91)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

### 3.3 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 92 - 93)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Keith Towler (Saesneg yn unig)

### 3.4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

(Tudalennau 94 - 95)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### 3.5 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant

(Tudalennau 96 - 97)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gomisiynydd Plant Cymru gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### 3.6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(Tudalennau 98 - 99)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod cyfan ar 4 Rhagfyr

11.00

## Cyfarfod preifat

11.00 - 12.45

## Egwyl

11.00 - 11.15

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - trafod y dystiolaeth

11.15 - 11.45

**Dogfennau atodol:**

## 6 Recriwtio a Chadw Athrawon – ystyried yr adroddiad drafft

11.45 – 12.45 (Tudalennau 100 – 228)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg

Sesiwn dystiolaeth: 27/11/25 09:30 – 11:00

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gynigion y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a amlinellir yng Nghyllideb ddrafft fanwl 2026-27, a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd 2025. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

# Cynnwys

**1. Meysydd trawsbynciol ........ 4**

Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb ........ 4

Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ........ 6

Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill ........ 6

Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill ........ 10

Costau deddfwriaeth ........ 11

Effaith pandemig COVID-19 ........ 12

Effaith pwysau costau byw ar ddarparu gwasanaethau addysg ........ 12

Monitro cyllidebau a'r cyd-destun ariannol presennol ........ 13

**2. Meysydd penodol ........ 14**

Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion ........ 14

Cyllid ar gyfer gwella ysgolion a chodi safonau ........ 15

Costau byw a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol ........ 19

Y gweithlu addysg ........ 22

Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc ........ 26

Ymddygiad a thrais ........ 27

Absenoldeb disgyblion ........ 28

Chwaraeon a gweithgarwch corfforol ........ 28

Cymorth ar gyfer dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ........ 29

Anghenion Dysgu Ychwanegol ........ 30

Estyn ........ 32

Cymwysterau ........ 33

Cymraeg mewn Addysg ........ 33

Academi Seren ........ 35

Addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant ........ 36

Gwaith ieuenctid ........ 37

Dysgu ar gyfer troseddwyr ........ 38

Cyllid ar gyfer Medr ... 39
Addysg bellach, chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned ... 39
Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ac ôl-16 ... 41
Darpariaeth addysg ôl-16 arall ... 43
Y Warant i Bobl Ifanc ... 43
Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau ... 44
Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant ... 46
Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion Bro ... 47

**3. Crynodeb ... 48**

**4. Atodiadau ... 49**

Atodiad A – Dadansoddiad o'r MEG Addysg yn ôl Camau Gweithredu a BEL ar gyfer 2024-25, 2025-26 a 2026-27 ... 49
Atodiad B – Dyraniadau'r MEG Addysg ar gyfer 2026-27 ... 56
Atodiad C – Newidiadau sylweddol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 ... 58
Atodiad D – Dyraniadau'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol 2025-26 yn ôl elfen ac awdurdod lleol ... 61
Atodiad E – Dyraniadau Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd 2025-26 yn ôl awdurdod lleol ... 62

# 1. Meysydd trawsbynciol

## Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau'r MEG Addysg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2026-27 ar 14 Hydref a 3 Tachwedd. Mae hyn yn cadarnhau cynnydd mewn adnoddau cyllidol (refeniw) o £39.2m (2.2%) a chyfalaf cyffredinol o £7.5m (2%), o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27. Ni fu unrhyw newidiadau i adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) ac mae Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn adlewyrchu'r ad-daliadau ar fenthyciadau Trafodiadau Ariannol o ychydig o dan £2m ar gyfer 2026-27.

| Cynlluniau | MEG Addysg yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen | 2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Cynnydd Chwyddiannol | Newidiadau Eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000s | | | | | |
| Adnoddau anghyllidol (refeniw) | 1,800,854 | 11,870 | 1,812,724 | 37,414 | 1,766 | 1,851,904 |
| Adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) | 267,594 | 0 | 267,594 | 0 | 0 | 267,594 |
| Cyfanswm yr Adnoddau | 2,068,448 | 11,870 | 2,080,318 | 37,414 | 1,766 | 2,119,498 |
| Cyfalaf | 374,500 | 0 | 374,500 | 7,490 | 0 | 381,990 |
| Cyfalaf – Trafodiadau Ariannol | -1,701 | 1,701 | 0 | 0 | -1,968 | -1,968 |
| Cyfanswm Cyfalaf | 372,799 | 1,701 | 374,500 | 7,490 | -1,968 | 380,022 |
| Cyfanswm yr Adnoddau a'r Cyfalaf | 2,441,247 | 13,571 | 2,454,818 | 44,904 | -202 | 2,499,520 |
| AME Adnoddau | -100,842 | - | -100,842 | - | -62,793 | -163,635 |
| AME Cyfalaf | 1,353,163 | - | 1,353,163 | - | 89,315 | 1,442,478 |
| Cyfanswm yr AME | 1,252,321 | 0 | 1,252,321 | 0 | 26,522 | 1,278,843 |
| Cyfanswm – MEG Addysg | 3,693,568 | 13,571 | 3,707,139 | 44,904 | 26,320 | 3,778,363 |

Mae'r llinell sylfaen ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn defnyddio Cyllideb Derfynol 2025-26 fel dechreubwynt, gyda'r addasiadau canlynol ar gyfer y MEG Addysg:

- tynnu cyllid nad yw'n gylchol nad yw wedi'i glustnodi drwy fformiwla Barnett gan Drysorlys y DU – dyraniad o £3.671m ar gyfer 2025-26 ar gyfer iawndal TAW ar leoliadau arbenigol ôl-16 mewn colegau arbennig preifat sydd wedi bod yn ddarostyngedig i TAW o 20% ers 1 Ionawr 2025 (caiff dyfarniad o £0.697m ar gyfer 2026-27 ei gynnwys o dan 'newidiadau eraill' yn y tabl uchod);

- cynnwys cyllid cylchol yn 2025-26 i gefnogi cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol o fis Ebrill 2025 – £10.087m ar gyfer Cyrff Hyd Braich, colegau Addysg Bellach a chweched dosbarth (drwy Medr) a staff a ariennir drwy'r rhaglen; a

- cynnwys cyllid cylchol i gefnogi cytundebau cyflog y sector cyhoeddus y flwyddyn hon – £5.454m ar gyfer Cyrff Hyd Braich, colegau Addysg Bellach a chweched dosbarth (drwy Medr) a staff a ariennir drwy'r rhaglen.

Ni chafwyd unrhyw addasiadau llinell sylfaen ar gyfer adnoddau anghyllidol na chyfalaf cyffredinol. Ar Gyfalaf Trafodiadau Ariannol, mae ad-daliadau Trafodiadau Ariannol ar gyfer 2025-26 wedi'u hail-ychwanegu i'r llinell sylfaen. Ceir dadansoddiad o addasiadau llinell sylfaen yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn Atodiad A.

*Adnoddau cyllidol (refeniw)*

Dyrannwyd cynnydd chwyddiannol i'r MEG Addysg ar refeniw o £37.4m (2.1%) ar gyfer 2026-27. Defnyddiwyd dull wedi'i dargedu i gymhwyso'r cynnydd hwn i gefnogi tâl, cyllidebau a arweinir gan alw a blaenoriaethau allweddol yn 2026-27. Ymysg dyraniadau refeniw pellach mae £0.7m sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iawndal TAW ar leoliadau ôl-16 i amddiffyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a £0.7m o gyllid cylchol ar gyfer darpariaeth trochi iaith Gymraeg i helpu i gyflawni *Cymraeg 2050* a rhoi Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ar waith.

Bu dwy broses drosglwyddo MEG i MEG gylchol hefyd gan greu cyfanswm trosglwyddo MEG o £0.4m:

- £0.449m o'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r BEL Safonau Ysgol i gefnogi elfen addysg feithrin y Cynnig Gofal Plant (gweler yr adran ar addysg gynnal a gofal plant); a

- £0.008m o'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer Prosiect y Gymraeg ym Mhatagonia.

Yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir crynodeb o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn canolog yn Atodiad B.

*Adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod)*

Ni fu unrhyw newidiadau i gyllidebau adnoddau anghyllidol, a chaiff unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol eu gwneud fel rhan o gyllideb derfynol neu gyllidebau ategol yn y flwyddyn.

*Cyfalaf*

Dyrannwyd cynnydd chwyddiannol i'r MEG Addysg ar gyfalaf o ychydig o dan £7.5m (2%) ar gyfer 2026-27. Bydd y rhan fwyaf ohono (£7.1m) yn cefnogi ein Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu lwyddiannus i ysgolion a cholegau. Dyrennir £0.2m pellach i gefnogi'r gofynion cyfalaf er mwyn galluogi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i gyflwyno'r pecyn cymorth i fyfyrwyr AU ac AB yng Nghymru, ynghyd â £0.18m i gefnogi gofynion cyfalaf Cyngor y Gweithlu Addysg.

Nid oes unrhyw ddyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn y gyllideb hon ar gyfer y MEG Addysg ac mae'r gostyngiad o £1.968m yn adlewyrchu'r proffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt mewn perthynas â benthyciadau a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

*Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Mae a wnelo'r gyllideb hon â benthyciadau i fyfyrwyr, sy'n seiliedig ar alw ac yn sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill. Cytunir ar y gyllideb hon â Thrysorlys EF bob blwyddyn ac mae ffigurau'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Ionawr 2025.

## Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

Ceir dadansoddiad o'r MEG Addysg yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad A. Yn unol â chais y Pwyllgor, mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi manylion am ddyraniadau ar gyfer Cyllideb Derfynol 2025-26, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26, alldro a ragwelir 2025-26 (yng nghyfnod 5) ac alldro terfynol 2024-25. Fel y nodwyd, mae'r crynodeb hefyd yn cynnwys y newidiadau i'r llinell sylfaen a'r gyllideb at ddibenion cymharu.

Fel y flwyddyn ddiwethaf, nid oes sylwadau ar wahân yn ôl Cam Gweithredu wedi'u darparu am fod y newidiadau allweddol o 2025-26 wedi'u hadlewyrchu yn Atodiad A ac Atodiad B, ynghyd â sylwadau ar y newidiadau hyn yn adrannau 'meysydd penodol' y papur hwn. Fodd bynnag, yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir dadansoddiad ac esboniad o newidiadau arwyddocaol (dros £1m) i Linellau Gwariant yn y Gyllideb ers y Gyllideb Atodol Gyntaf yn 2025-26 yn Atodiad C.

## Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill

Mae ein penderfyniadau cyllido yn y gyllideb ddrafft hon yn seiliedig ar flaenoriaethau'r llywodraeth, gyda'r cynnydd chwyddiannol wedi'i dargedu i sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Mae fy mlaenoriaethau yn glir: gwella presenoldeb a chodi lefelau cyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd, gyda chefnogaeth diwygiadau parhaus i'r cwricwlwm ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Wrth wraidd yr

ymdrechion hyn mae ymrwymiad i hyrwyddo llesiant mewn ysgolion, sy'n sail i lwyddiant yr holl ddiwygiadau. Er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau hyn, rydym wedi blaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael yng nghyllideb ddrafft 2026-27 fel a ganlyn:

- £5m ychwanegol i helpu i ddarparu ADY i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a gwella cysondeb cenedlaethol a chynnig darpariaeth gynaliadwy i blant a phobl ifanc. Mae'r cyllid hwn yn adeiladu ar y £10m ychwanegol a ddyrannwyd y flwyddyn ddiwethaf, gan fynd â chyfanswm y cyllid ar gyfer ADY drwy elfen ddiwygio Grant Addysg Awdurdodau Lleol i £37m o 2026-27. Mae gwella'r cydweithio rhwng awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach (AB) i nodi a diwallu anghenion pobl ifanc ag ADY yn hanfodol i chwalu'r rhwystrau a wynebir ganddynt i barhau i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Gan gydnabod hyn, bydd Medr yn defnyddio £4.1m o'i gynnydd yn 2026-27 i gefnogi ADY mewn colegau. Mae hyn yn sicrhau bod y cyllid ychwanegol ar gyfer ADY yn y flwyddyn ariannol hon yn cael ei chynnwys yn y gyllideb ar sail gylchol.

- Mae £3m pellach yn cefnogi dysgwyr dros 16 oed y mae angen iddynt gael mynediad at golegau arbenigol annibynnol er mwyn diwallu eu hanghenion addysgol, sydd, ynghyd â dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer iawndal TAW, yn mynd â'r gyllideb ar gyfer lleoliadau arbenigol ôl-16 i £19.9m yn 2026-27.

- £8.9m ychwanegol neu gynnydd o 5.3% i elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi dysgu sylfaen, athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau eraill, gan fynd â chyfanswm y cyllid safonau ysgolion yn 2026-27 i fwy na £178m.

- £2.5m ychwanegol yn elfen Tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi presenoldeb ac ymyriadau ymhellach gyda'r nod o fynd i'r afael â dadrithiad, ymgysylltu â theuluoedd a chefnogi dysgwyr. Mae hyn yn adeiladu ar y £7m ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb y flwyddyn ddiwethaf i gynyddu lefelau presenoldeb.

- Gan adeiladu ar y £10m ychwanegol a fuddsoddwyd o 2025-26 i gefnogi llythrennedd a rhifedd, rydym yn buddsoddi £2m ychwanegol i gefnogi rhaglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru ac asesiadau wedi'u personoli yn 2026-27.

- Yn dilyn y £1.6m ychwanegol a fuddsoddwyd i gefnogi rhaglen genedlaethol Hwb o 2025-26, dyrennir £0.3m ychwanegol yn 2026-27 i gefnogi

gwasanaethau cymorth cwmwl hanfodol er mwyn sicrhau mynediad i adnoddau a gwasanaethau digidol priodol i'r holl ddysgwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a gynhelir.

- Ar gyfer addysg drydyddol, caiff £21.5m ychwanegol ei ddyrannu drwy Medr yn 2026-27 (heb gynnwys trosglwyddiad Estyn). Yn ogystal â chymorth ar gyfer ADY, bydd yn sicrhau cyflog cyfartal mewn colegau AB a dosbarthiadau chweched dosbarth i gynnal y safonau a'r ansawdd addysgu uchaf pan fydd dysgwyr yn ymgymryd ag addysg ôl-16, yn cefnogi costau lleoliadau Addysg Gychwynnol i Athrawon i gefnogi sefydliadau addysg uwch gyda chostau cynyddol darpariaeth, yn cynyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer colegau AB ac yn cefnogi'r broses o ehangu'r rhaglen brentisiaeth iau.

- Bydd y cyfalaf ychwanegol gwerth £7.1m yn ein hystad addysgol yn helpu i gynnal safonau drwy ddarparu amgylchedd sy'n annog lefelau uwch o bresenoldeb a chyrhaeddiad a chefnogi cymunedau ledled Cymru.

Rwy'n parhau i glywed yn rheolaidd gan athrawon a staff ysgolion ynghyd â'm grŵp cynghori arbenigol a'm grŵp cynghori ar gyfer penaethiaid. Gan fyfyrio ar eu negeseuon, rwy'n parhau i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau gwella ar gyfer y sector cyfan a gefnogir gan y gyllideb hon. Bydd y set glir hon o flaenoriaethau yn ein helpu i reoli llwyth gwaith, blaenoriaethu adnoddau a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd ar alluogi gwelliannau gwirioneddol i bobl ifanc.

*Gwybodaeth am unrhyw drafodaethau parhaus ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i sicrhau bod y lefel uchaf posibl o adnoddau ar gael ar gyfer addysg, gan gynnwys cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion drwy'r Setliad Llywodraeth Leol*

Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y dull gweithredu ar gyfer Cyllideb 2026-27 yn ei ddatganiad llafar ar 1 Gorffennaf, a oedd yn cadarnhau y bydd cynnydd mewn cyllidebau adrannol yn unol â'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant. Mae rhagor o fanylion am y dull hwn wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Ddrafft Amlinellol ar gyfer 2026-27 a gyhoeddwyd ar 14 Hydref.

Fel rhan o'r paratoadau cyllidebol, rwyf wedi cael cyfres o gyfarfodydd dwyochrog ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i drafod lefel yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer addysg. Yn benodol, blaenoriaethu cyllid rheng flaen i ysgolion, cydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu ysgolion a phartneriaid awdurdodau lleol i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol ar gyfer ADY a darpariaeth addysg ehangach.

O ran cyllidebau craidd ysgolion, rydym wedi rhoi cynnydd o 2.5% drwy'r setliad heb ei neilltuo yn 2026-27, gyda chyllid ychwanegol o £8m, gyda'r nod o derfyn isaf

o 2.3%. Ar gyfer y MEG Addysg, rydym wedi defnyddio ein cynnydd chwyddiannol i feysydd targed i gefnogi ein blaenoriaethau a helpu i reoli pwysau yn y system. Rydym wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion, drwy gynnydd i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol o fwy na 4% ar 2025-26. Bydd hyn yn golygu bod £8.9m ychwanegol yn yr elfen Safonau Ysgolion i gefnogi dysgu sylfaen ymhellach, ac athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau eraill; £2.5m yn yr elfen Tegwch i gefnogi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, gweithgareddau cyfoethogi ac Ysgolion Bro; a £5m yn yr elfen Diwygio i gefnogi ADY ymhellach.

*Manylion am sut mae dyraniadau i'r MEG Addysg ac oddi mewn iddo yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu*

Yn ogystal â'r cyllid a fuddsoddir i gefnogi ein cwricwlwm a diwygiadau ADY, mae cyllid yn parhau i gael ei gynnal i gefnogi ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu.

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol symlach. Drwy elfen Tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol, rydym yn parhau i ddiogelu buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion sy'n ariannu ysgolion i gefnogi ein dysgwyr sydd fwyaf bregus yn economaidd. Rydym hefyd yn diogelu cyllid o fewn yr elfen Tegwch i gefnogi'r Dull Ysgol Gyfan a chyllid ar gyfer cwnsela mewn ysgolion.

Rydym yn cynnal y gyllideb o £93.5m i gefnogi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM), gan sicrhau bod pob disgybl ysgol gynradd yn parhau i gael pryd ysgol am ddim, mynd i'r afael â thlodi plant, lleddfu pwysau costau byw, gwella canlyniadau addysgol a hyrwyddo tegwch.

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yn 2022 a chaiff cam newydd rhaglen y Gwasanaeth (2025-2028) ei gefnogi o dan Raglen Cymorth Grant y Cwricwlwm i Gymru, gyda chyllid o £12 miliwn dros y cyfnod hwn o dair blynedd.

Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni ein hymrwymiad i fuddsoddi mwy na £1.5bn yng ngham nesaf y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, a gyflawnir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol a chydleoli gwasanaethau allweddol. Caiff hyn ei ddangos drwy ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar sy'n cefnogi'r broses o roi darpariaethau gofal plant newydd ar waith a gwella a chynnal y seilwaith gofal plant presennol. Mae cyllid ar gyfer Ysgolion Bro yn hwyluso'r broses o agor adeiladau ysgol y tu allan i oriau traddodiadol gyda'r nod o sicrhau bod yr ystad addysg yn rhan ganolog o'r gymuned leol. Yn olaf, rydym yn trawsnewid amgylcheddau dysgu er mwyn datblygu ysgolion carbon sero net.

*P'un a yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu targedu adnoddau at fynd i'r afael ag unrhyw themâu neu flaenoriaethau trawsbynciol ar draws y MEG cyfan, ac os felly, sut.*

Mae gan bob Ysgrifennydd Cabinet a Gweinidog rôl bwysig i'w chwarae i gefnogi'r broses o roi *Cymraeg 2050*: *Miliwn o siaradwyr* ar waith. Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg sy'n gyfrifol am roi *Cymraeg 2050* ar waith, a chaiff cyllid ar gyfer y Gymraeg ei brif ffrydio ar draws sawl maes portffolio, gan gynnwys drwy'r MEG Addysg. Mae hyn yn cynnwys cyllid wedi'i ddyrannu o'r BEL Cymraeg 2050 (y Grant Addysg Awdurdodau Lleol), y BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon a'r BEL Cymraeg mewn Addysg, sy'n cefnogi'r broses o roi Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ar waith.

Mae'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi datblygu'n barhaus i gwmpasu prosesau ymgysylltu a chydweithio ehangach â rhaglenni buddsoddi eraill fel y Blynyddoedd Cynnar, y Gymraeg, ADY, Ysgolion Cymunedol, Digidol, Addysg Bellach ac Addysg Uwch.  Ni ddylid tanbrisio gwerth y dull trawsbynciol hwn. Mae'n ysgogi prosesau cydweithio ar lefel leol – drwy awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a rhanddeiliaid y naill a'r llall – er mwyn mynd ati mewn modd arloesol i gyflawni blaenoriaethau ar lefel leol, yn ogystal â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol.

## Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

*Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant*

Cynhelir asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu ac adolygu polisïau. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol yn un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb ddrafft ac mae'n hanfodol i nodi tueddiadau allweddol ac effeithiau strategol a chyfunol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ddyledus i'r gofynion statudol.

Mae’r dull integredig sy'n sail i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ein galluogi i feithrin dealltwriaeth well o effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau ynghylch gwariant ac i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf posibl, gan leihau'r effaith anghymesur ar unrhyw grŵp neu faes penodol. Ym marn y Llywodraeth, gallai ystyried maes effaith ar ei ben ei hun arwain at ganlyniadau anfwriadol fel effaith negyddol mewn un maes wedi'i llywio gan effaith gadarnhaol mewn maes arall.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae pob Ysgrifennydd Cabinet yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy a bwriedir i'n cynlluniau gwario sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a blaenoriaethau hirdymor. Rydym yn cydnabod bod angen inni gydweithio â'n partneriaid a defnyddio ein hadnoddau cyfunol yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd sydd i ddod.

Drwy ei fframwaith cynhwysol sy'n seiliedig ar hawliau, mae Deddf ALNET yn helpu i ddathlu amrywiaeth, dileu gwahaniaethu ar bob ffurf a chau'r bwlch rhwng dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r boblogaeth weithio ehangach.

Mae ehangu prydau ysgol am ddim i bob ysgol gynradd yn cyfrannu at nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy annog bwyta'n iach (Cymru Iachach), lleihau anghydraddoldeb (Cymru sy'n Fwy Cyfartal), lleddfu materion ariannol teuluoedd a rhoi hwb i ragolygon hirdymor (Cymru Lewyrchus), meithrin cynhwysiant (Cymru o Gymunedau Cydlynus), a chefnogi prosesau caffael bwyd yn lleol (Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang).

## Costau deddfwriaeth

*Manylion y dyraniadau yng nghyllideb 2026-27 ar gyfer rhoi deddfwriaeth sylfaenol ar waith.*

Mae costau rhoi deddfwriaeth ar waith, sy'n cynnwys Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 wedi'u cynnwys fel rhan o'r ddogfen gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd.

Mae'r broses o roi Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ar waith yn parhau, gyda'r broses gychwyn ac is-deddfwriaeth gysylltiedig yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd. Mae hyn yn cario parhad bach o wariant cyfreithiol a gwariant cysylltiedig i 2026-27, yr amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd yn tua £0.2m.

Mae llawer o'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ar waith hefyd wedi'u nodi yn yr adran ar wella ysgolion a chodi safonau.

Caiff y broses o roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith ei chwblhau ddiwedd mis Awst 2025. Ceir rhagor o fanylion am gyllid yn yr adran ar ADY.

*Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU.*

Ni wyddom am unrhyw ddeddfwriaeth gan Senedd y DU a all effeithio ar ein cyllideb ar gyfer 2026-27. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fonitro Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, gan gynnwys effaith y darpariaethau mewn perthynas â phlant nad ydynt yn yr ysgol o'r Bil Llesiant Plant ac Ysgolion, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth i'r Senedd lle bo angen.

*Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2026-27.*

Bydd y gyllideb yn parhau i ystyried is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2026-27. Mae rheoliadau drafft yn destun asesiad cadarn o gostau a buddiannau, a gynhelir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, wrth ddatblygu'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Diben hyn yw sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

## Effaith pandemig COVID-19

***Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth sy'n weddill yn y MEG Addysg yn 2025-26 a 2026-27 ar gyfer ymdrin ag effaith y pandemig ac adfer ar ei ôl, er enghraifft a yw'r rhaglen "Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau" yn parhau yn 2026-27.***

Fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor y flwyddyn ddiwethaf, nid yw'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn bodoli mwyach a chyfunwyd cyllid gyfer y rhaglen (£28.5m) yn elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024-25, ynghyd â chynnydd pellach o £10.9m.

Yn unol â 2025-26, byddwn yn dyrannu £0.2m o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2026-27 i barhau i ariannu tîm yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i arwain ymchwil yn ymwneud â'r heriau parhaus sy'n wynebu ymarferwyr, fel presenoldeb, ymddygiad a lleferydd ac iaith, a waethygodd yn sgil y pandemig.

## Effaith pwysau costau byw ar ddarparu gwasanaethau addysg

Fel pob gwasanaeth sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, mae ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant yn parhau i weithredu o dan gyfyngiadau cost sylweddol, yn arbennig mewn perthynas â chyflogau, ynni a nwyddau traul. Nid oes unrhyw atebion hawdd i fynd i'r afael â'r costau uwch hyn yn y setliad cyllidebol presennol. Rydym yn cydnabod effaith y pwysau hyn ac yn parhau i ymgysylltu'n agos â'n rhanddeiliaid ar y materion hyn.

Gofynnwyd i Medr gymhwyso cynnydd i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn ei gynnydd yn y dyraniad i'r gyllideb, ynghyd â thwf diweddar mewn niferoedd dysgwyr. Mae Medr yn rhoi cyllid o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn i ddarparwyr ôl-16 i gefnogi dysgwyr cymwys sy'n wynebu anawsterau ariannol neu ddysgwyr y mae risg y byddant yn gadael addysg. Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn helpu i dalu costau fel ffioedd, costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs, trafnidiaeth, prydau bwyd, a chostau gofal plant. Cyhoeddir rhagor o fanylion pan fydd Medr yn cyhoeddi ei ddyraniadau cyllid.

Ers mis Ionawr 2022, mae'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi mandadu safonau carbon sero net ar gyfer pob prosiect sy'n cynnwys adeiladau

newydd, estyniadau a gwaith adnewyddu mawr. Roedd y mandad hefyd yn cynnwys targedau i leihau carbon ymgorfforedig a gaiff ei greu drwy weithgynhyrchu, cludo deunyddiau a'r broses adeiladu. Mae'r cam dewr hwn wedi sicrhau bod yr Ystad Addysg yng Nghymru yn rhan ganolog o Sector Addysg y DU wrth ddatgarboneiddio ysgolion a cholegau ac mae'n eu helpu i reoli eu defnydd o ynni drwy adeiladau sy'n effeithlon yn thermol ac o ran ynni.

Ar adeg rhoi hyn ar waith, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gefnogi 100% o'r gost ychwanegol (uwchlaw llinell sylfaen sgôr Rhagorol BREEAM) i gyflawni ein hymrwymiad carbon sero net. Y gost gyfalaf ychwanegol ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwn, a ariennir drwy gyllideb gyfalaf y Rhaglen, yw tua 12.5% o werth y prosiect, sef tua £32.6m yn 2026-27.

## Monitro cyllidebau a'r cyd-destun ariannol presennol

*Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau o fewn y MEG Addysg drwy gydol y flwyddyn.*

Mae rheolaeth ariannol ofalus yn hanfodol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Parheir i fonitro a herio'r holl gyllidebau'n fisol yn 2025-26, er mwyn cyflwyno'r rhagolygon diweddaraf a throsglwyddiadau mewn cyllidebau yn ôl yr angen a sicrhau alldro cytbwys erbyn diwedd y flwyddyn. Rwy'n cael diweddariadau ariannol misol ar ragolygon ar gyfer y MEG Addysg er mwyn sicrhau bod cyllidebau yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni blaenoriaethau.

*Manylion unrhyw newidiadau i MEG Addysg 2025-26 a ddisgwylir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol.*

Mae'r addasiadau i'r llinell sylfaen yn 2026-27 i adlewyrchu'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i gefnogi dyfarniadau cyflog yn y sector cyhoeddus yn 2025-26 yn newidiadau a ragfynegwyd eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol. Mae hyn yn cynnwys cyllid i ariannu dyfarniad cyflog athrawon 2025/26 a sicrhau cydraddoldeb cyflog ar gyfer addysg ôl-16 (gweler yr adran ar y gweithlu addysg).

Caiff y cyllid ychwanegol yn 2025-26 i gefnogi Cydlynwyr ADY (gweler yr adran ar ADY) ei ffurfioli hefyd drwy broses y gyllideb atodol.

# 2. Meysydd penodol

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol ar gais y Pwyllgor.

## Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

***Esboniad o bu'n a yw Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 (yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol a'r MEG Addysg) a'r modd y gwnaeth hynny.***

Y brif ffynhonnell cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion yw'r cyllid a roddir i awdurdodau lleol drwy'r setliad Llywodraeth Leol. Fel y nodwyd, rydym wedi darparu cynnydd o 2.5% drwy'r setliad heb ei neilltuo yn 2026-27.

Ar gyfer 2026-27, caiff £418.6m ei fuddsoddi drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, sef cynnydd o fwy na 4% o gymharu â 2025-26. Mae ein cynlluniau sy'n seiliedig ar alw yn parhau i fod y tu hwnt i hyn, am fod hawliadau penodol ar alw gwirioneddol yn angenrheidiol at ddibenion talu; mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, Hanfodion Ysgol a Lleoliadau Arbenigol Ôl-16.

***Sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r fformiwla cyllido ysgolion (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025) a Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 yn null Llywodraeth Cymru o ddarparu'r cyllid a fwriadwyd ar gyfer ysgolion yn 2026-27.***

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o fformiwlâu cyllid ysgolion awdurdodau lleol ledled Cymru, gyda'r nod o ddeall y cymhlethdodau sydd dan sylw yn well. Nododd adroddiad cryno a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025 ganfyddiadau allweddol yr adolygiad a gwnaeth nifer o argymhellion o ran sut y gellid gwella'r system

Gwnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig sy'n diwygio ac yn cyfuno Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002 a Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003. Dylai'r newidiadau roi mwy o hyblygrwydd fel y gall awdurdodau lleol roi cymorth gwell i ysgolion reoli eu cyllidebau a sicrhau bod y system yn fwy tryloyw, cymaradwy a chyson, fel y gellir cynnal trafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau ar bob lefel. Bydd Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 yn cael eu gosod yn y gwanwyn 2026. Fodd bynnag, i roi digon o amser i'r awdurdodau lleol ymgynghori a gweithredu unrhyw newidiadau gofynnol, bydd y Rheoliadau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2027, ar ddechrau blwyddyn ariannol 2027-28.

Er y bydd y newidiadau hyn yn darparu cyllid mwy tryloyw, cymaradwy a chyson ar draws ysgolion Cymru, ni fyddant yn mynd i'r afael â'r materion presennol o ran

y lefelau o gyllid a ddarperir yn y system addysg. Ar gyfer 2026-27, rhoddwyd blaenoriaeth i gynnydd chwyddiannol y MEG i gefnogi cyllid i ysgolion drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

*Safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet ar lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion, yng nghyd-destun data 31 Mawrth 2025 y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ar ddiwedd mis Hydref 2025.*

Roeddem bob amser yn maentumio mai rhywbeth dros dro fyddai'r lefel uchel o gronfeydd wrth gefn a welwyd gan ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd data y flwyddyn ddiwethaf yn adlewyrchu hynny gyda gostyngiad o 45% mewn cronfeydd wrth gefn rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mawrth 2024 i £115m. Ar adeg paratoi'r papur hwn, nid oedd lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth 2025 yn hysbys, ond rydym yn disgwyl i'r data a gyhoeddir ar ddiwedd mis Hydref adlewyrchu trywydd parhaus am i lawr yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion. Byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i weithio gyda'u hysgolion i reoli eu cyllidebau mewn modd hyblyg gan ystyried yr amgylchiadau presennol.

## Cyllid ar gyfer gwella ysgolion a chodi safonau

*Esboniad o'r modd y mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn helpu i wella ysgolion a chodi safonau addysg, a'r modd y mae'n adlewyrchu'r newidiadau sy'n mynd rhagddynt o dan y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion.*

Rwyf wedi nodi ein blaenoriaethau gwella ar gyfer y sector cyfan sydd wrth wraidd y gwelliannau yr hoffem eu gweld ac sy'n cael eu cefnogi gan y gyllideb hon. Mae'r set glir hon o flaenoriaethau yn ein helpu i reoli llwyth gwaith, blaenoriaethu adnoddau a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd ar sicrhau gwelliannau gwirioneddol i bobl ifanc.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar bresenoldeb, llythrennedd a rhifedd er mwyn helpu i wella ysgolion a chodi safonau.  Gwyddom fod cysylltiad cryf rhwng presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad.

Mae ein cymorth cenedlaethol ar gyfer mathemateg, rhifedd a llythrennedd yn cynnwys adnoddau dysgu proffesiynol a fydd yn nodi gwybodaeth fanwl am gynnydd yn y sgiliau hynny. Rydym hefyd wedi cyfuno'r Astudiaeth Cynnydd mewn Llythrennedd Darllen Rhyngwladol (PIRLS) a'r Tueddiadau mewn Astudiaethau Mathemategol a Gwyddoniaeth (TIMSS), sy'n asesiadau meincnodi rhyngwladol o lythrennedd a rhifedd. Bydd yr astudiaethau hyn, ynghyd â PISA 2025, a ariannwyd o'r BEL Cefnogi Safonau Ysgolion (a fydd yn gweld cynnydd o £0.3m yn 2026-27), yn rhoi data cyfoethog i ni ar gryfderau dysgwyr a meysydd lle mae angen i ni wella a hefyd yn darparu cyd-destun a dysgu rhyngwladol i ni.

Mae symleiddio ein grantiau o 2024-25 wedi helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu a'u darparu yn y ffyrdd mwyaf priodol, effeithlon ac effeithiol. Drwy

elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol, byddwn yn cyfeirio mwy nag £178m o gyllid yn 2026-27 at ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn helpu i wella ysgolion a chodi safonau, cynnydd o fwy na 5% o gymharu â 2025-26.

***Manylion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2026-27, gan gynnwys dadansoddiad o'i bedair elfen.***

Darperir mwy na £418m yn 2026-27 drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi ein hysgolion a'n hawdurdodau lleol (heb gynnwys ein cynlluniau seiliedig ar alw). Rhoddir dadansoddiad o'r cyllid a ddarperir drwy'r pedair elfen isod.

| Elfen o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol | £000 |
|---|---|
| Safonau Ysgolion | 178,123 |
| Tegwch | 158,750 |
| Diwygio | 72,261 |
| Cymraeg 2050 | 9,473 |
| Cyfanswm y Grant Addysg Awdurdodau Lleol 2026-27 | 418,607 |

***Manylion faint o Grant Addysg Awdurdodau Lleol a dalwyd i bob awdurdod lleol yn 2025-26, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl y pedair elfen.***

Mae cyfanswm o £402m yn cael ei ddarparu yn 2025-26 drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi ein hysgolion a'n hawdurdodau lleol (heb gynnwys ein cynlluniau seiliedig ar alw). Ceir dadansoddiad o'r cyllid a ddyfarnwyd yn Atodiad D..

***Asesiad diwygiedig a gynhaliwyd ar effaith cyfuno'r grantiau unigol â'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2024-25 a'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei hun na fu unrhyw achos o wanhau gweithgareddau ac ymyriadau a neilltuwyd yn flaenorol.***

Drwy ein gweithgarwch rheolaidd i ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym yn parhau i adolygu effaith y trefniadau cyfuno grantiau a gyflwynwyd yn 2024-25.

Ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol sy'n peri pryder ers cyflwyno'r trefniadau grant cyfunedig. Rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn rheolaidd ac yn cael deialog agored â nhw, gan eu hannog i godi materion sy'n peri pryder â ni.

Fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, a'r camau a gymerir i leihau'r llwyth gwaith yn y sector addysg, mae cyfuno grantiau hefyd wedi ein galluogi i gyflwyno trefniadau monitro ac adrodd mwy effeithiol ar gyfer ein cyllid grant. Fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, rwyf wedi cael adborth cadarnhaol gan Gadeirydd y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol, yn nodi bod y newidiadau i'r gofynion adrodd ar grantiau yn ddatblygiad a groesewir i leihau llwyth gwaith mewn ysgolion.

*Gwybodaeth am ddyraniadau cyllideb i gefnogi ymdrechion i wella safonau llythrennedd a rhifedd ac unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud o'u heffeithiolrwydd a gwerth am arian.*

Mae gwelliant parhaus mewn safonau addysg yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon, ac mae datblygu llythrennedd a rhifedd drwy'r Cwricwlwm i Gymru yn allweddol i gyflawni hyn. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cymorth ac adnoddau proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i ysgolion a lleoliadau. Darperir cyllid ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion drwy dair elfen ein Cyllideb ddrafft a'r setliad Llywodraeth Leol i awdurdodau lleol yw ein buddsoddiad mwyaf sylweddol mewn addysg a gwasanaethau lleol.

Yn ogystal â setliad Llywodraeth Cymru, mae elfen diwygio y Grant Addysg Awdurdodau Lleol hefyd yn cynnwys cyllid parhaus ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd i ysgolion ac awdurdodau lleol a'u partneriaethau. Hefyd, yn 2026-27 byddwn yn parhau i fuddsoddi'r £10m ychwanegol a ddarperir yn 2025-26 i gefnogi dysgu a chyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd. Yn y pecyn hwn, bydd y £2.5m ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol yn parhau i gael ei ddyrannu drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cynyddu eu capasiti i gefnogi ysgolion yn lleol ac ymgorffori dulliau gweithredu a gyflwynir drwy'r rhaglenni cenedlaethol.

Yn 2025-26, gwnaethom gyflwyno'r rhaglen cymorth grant newydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru er mwyn rhoi cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau, a ariennir drwy'r BEL Cwricwlwm ac Asesu. Mae'r dull strategol newydd hwn o ddarparu cymorth cwricwlwm a ariennir gan grant yn rhoi blaenoriaeth i gyllid ehangach (nad yw drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer blaenoriaethau, gan gynnwys ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Ar gyfer 2026-27, rydym yn cynyddu'r gyllideb i gefnogi'r rhaglen grantiau £1.4m. Mae'r cyllid hanfodol hwn ar gyfer rhaglenni cymorth cenedlaethol yn gwella addysgu mewn llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys cymorth ffoneg, ynghyd â darparu ymyriadau penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi dysgwyr sy'n cael anawsterau â llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd dysgu proffesiynol cyson o ansawdd uchel i godi safonau i bob plentyn.

*Cyllid ar gyfer rhaglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru a manylion niferoedd a gwerthoedd y grantiau a ddyfarnwyd.*

Cyflwynwyd rhaglen cymorth grant newydd y Cwricwlwm i Gymru yn 2025-26 gyda phecyn cymorth o £44m dros dair blynedd ac mae'n dwyn ynghyd ddyfarniadau grant ar gyfer cymorth cwricwlwm (nad yw drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol) o dan ddull tymor hwyr cyffredin. Mae hefyd yn sicrhau bod cymorth yn cyd-fynd yn agosach â'n blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn

genedlaethol. Mae'r dyfarniadau cyllid tair blynedd yn darparu cymorth hanfodol ar ddylunio'r cwricwlwm, llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth a thechnoleg, galluogi dysgu, cerddoriaeth ac ieithoedd rhyngwladol. Ar gyfer Cyllideb 2026-27 mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad o £15.36m, sy'n cynnwys y £1.4m ychwanegol a ddyrennir i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu, er mwyn sicrhau'r cymorth grant hanfodol hwn. Mae'r grantiau ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn ffurfio rhan o'n rhaglenni cenedlaethol o gymorth dwys a gaiff eu datblygu maes o law gan Dysgu, ein corff Dysgu Proffesiynol newydd (gweler yr adran ar y gweithlu Addysg), gyda chyllid yn cael ei drosglwyddo mewn cyllideb yn y dyfodol.

Caiff manylion yr holl ddyfarniadau o dan raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

*Unrhyw gyllid arall i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.*

Bydd pob grŵp blwyddyn yn dysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2026. Mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys ein pwyslais ar gefnogi cynnydd dysgwyr ac annog ysgolion i weithio mewn clwstwr, yn parhau i gael ei flaenoriaethu yn ein buddsoddiad mewn ysgolion a lleoliadau. Rydym yn cydnabod y pwysau parhaus ar gyllidebau ysgolion a pha mor hanfodol yw ymgysylltu ag ymarferwyr a gwaith ysgol i ysgol er mwyn llwyddo i weithredu'r cwricwlwm a gwella ysgolion yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, rydym yn cynnal cyllid ysgolion yn benodol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ar lefelau 2025-26 o fewn elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar £6m, sydd uwchlaw'r ddarpariaeth o fewn y Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer dysgu proffesiynol ysgolion. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i gymryd rhan mewn rhaglenni cymorth a fydd yn cael eu darparu'n genedlaethol ac yn lleol drwy'r flwyddyn i ddod, gan gynnwys gan Awdurdodau Lleol drwy'r cyllid y maent yn ei gael o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Mae hyn ar wahân i'r £2.5m ar gyfer datblygu'r cwricwlwm (y cyfeiriwyd ato uchod) sydd hefyd yn cael ei gynnal o fewn elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer 2026-27.

Drwy'r BEL Cwricwlwm ac Asesu, byddwn yn darparu cyllid o fwy na £4m i Adnodd yn 2026-27 i barhau â'i waith yn comisiynu adnoddau addysg dwyieithog o ansawdd uchel i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Ar wahân i gyllid i Adnodd a rhaglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru, mae'r BEL hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer y rhaglen gymorth genedlaethol ar gyfer dylunio'r cwricwlwm, asesiadau personol a'n dull o werthuso a monitro'r cwricwlwm.

## Costau byw a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol

*Gwybodaeth am y modd y mae adnoddau o fewn y MEG Addysg yn cael eu defnyddio i gyflawni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol – gan gynnwys o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer "Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad" neu o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.*

Mae gan y Grant Datblygu Disgyblion ran allweddol i'w chwarae o ran cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb. Mae cyllid o £128m yn parhau i gael ei ddyrannu yn 2026-27 i gefnogi mwy na 94,000 o ddysgwyr cymwys. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddyrannu drwy elfen Tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol, ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol drosglwyddo cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn llawn i ysgolion a lleoliadau fel y nodir yn y dyraniadau ar lefel ysgol cyhoeddedig.

Dros y blynyddoedd diwethaf bu lleihad yn nifer y plant sy'n gymwys i gael y Grant Datblygu Disgyblion. Yn hytrach na lleihau'r cyllid cyffredinol yn y Grant Datblygu Disgyblion i adlewyrchu hyn, rydym wedi dosbarth unrhyw gyllid sy'n weddill yn y gyllideb i awdurdodau lleol ar sail gyfrannol. Defnyddir y cyllid hwn i gefnogi'r ysgolion hynny sy'n profi amrywiadau sylweddol mewn cyllid Grant Datblygu Disgyblion, sy'n sicrhau y gall ysgolion barhau i gynllunio eu buddsoddiad dros sawl blwyddyn.

Ym mlwyddyn academaidd 2024/25, comisiynodd Llywodraeth Cymru brosiect peilot Diogelu rhag Tlodi i ddarparu cymorth uniongyrchol i ysgolion er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â gwahaniaethau addysgol a lleihau rhwystrau a stigma sy'n gysylltiedig â thlodi. Disgwylir i'r peilot hwn gael ei gwblhau yn nhymor yr hydref 2026 a chaiff rhagor o gamau eu hystyried ar ôl y broses werthuso.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn y BEL Mynd i'r Afael â Rhwystrau yn cefnogi'r Grant Hanfodion Ysgolion, a cheir rhagor o wybodaeth isod.

*Gwybodaeth am y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgolion a gwariant yn 2025-26, gan gynnwys nifer y disgyblion a gefnogir a'r nifer a ragwelir yn 2026-27.*

Mae'r Grant Hanfodion Ysgol wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o deuluoedd incwm isel ledled Cymru, drwy helpu i leddfu gofidiau ynglŷn â phrynu gwisg ysgol ac offer, galluogi plant i fynychu'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar yr un lefel â'u cyfoedion. Mae mwy na 89,000 o ddysgwyr cymwys wedi cael budd o'r Grant Hanfodion Ysgol yn 2024-25. Bydd cyfanswm darpariaeth cyllideb o £13.1m ar gael ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgolion yn 2026-27, gan ein galluogi i barhau i gyllido'r grant ar lefel £125/£200 fesul dysgwr fel yn

2025-26, ac rydym wrthi'n monitro'r nifer sy'n manteisio ar y grant hwn bob chwarter.

*Gwybodaeth am sut mae adnoddau o fewn y MEG Addysg yn cael eu defnyddio i helpu dysgwyr mewn addysg ôl-16 i ymdopi ag effeithiau costau byw, ac i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau (gan gynnwys, er enghraifft, drwy gyllid caledi ychwanegol ar gyfer darparwyr, neu drwy gyllid cymorth i fyfyrwyr presennol fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg).*

Rydym yn parhau i ddarparu system cyllid myfyrwyr addysg uwch flaengar, gyda'r lefelau uchaf o gymorth grant nad oes rhaid ei ad-dalu yn cael eu darparu i'r rhai mwyaf anghenus, a'r lefelau cyffredinol uchaf o gymorth cynhaliaeth i israddedigion yn y DU.

Bydd cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr yn cynyddu ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Bydd pob myfyriwr cymwys yn gweld cynnydd o 2.0% yn eu grant fel rhan o gynnydd cyffredinol o 2.0% mewn cymorth cynhaliaeth. Bydd grantiau cynhaliaeth hefyd yn cynyddu o 2.0% am y tro cyntaf ers 2018. Bydd pob myfyriwr israddedig llawnamser neu ran-amser newydd neu sy'n dychwelyd yn derbyn y cynnydd hwn. Bydd y cymorth ar gyfer ymgymryd ag astudiaethau ôl-raddedig ar gyfer gradd Meistr a doethuriaeth hefyd yn cynyddu o 2.0%.

Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym yn diogelu cyllid ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer dysgwyr ifanc ar £40 yr wythnos ac rydym wedi cyllidebu i gynyddu'r trothwyon cymhwysedd ar gyfer incwm aelwydydd yn 2026/27 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym hefyd wedi gofyn i Medr gynyddu maint y Gronfa Ariannol Wrth Gern mewn colegau AB yn unol â'r cynnydd a ragwelir yn nifer y dysgwyr.

Gall dysgwyr 19+ oed sydd ar incwm isel fanteisio ar Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig hyd at £1,919 i ddysgwyr amser llawn a £959 i ddysgwyr rhan-amser ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Mae adolygiad annibynnol o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo, a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2025 a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2026. Caiff argymhellion eu hystyried cyn blwyddyn academaidd 2026/27.

*Unrhyw ddarpariaeth gyllidebol sy'n weddill ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn 2025-26 ac a oes angen unrhyw gyllideb ar gyfer hyn yn 2026-27. A roddwyd unrhyw ystyriaeth bellach i ehangu cymhwysedd mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig o ystyried y penderfyniad a wnaed yn Lloegr i ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl mewn aelwydydd sy'n cael credyd cynhwysol. Os na roddwyd unrhyw ystyriaeth i hyn, sut mae Llywodraeth*

*Cymru yn bwriadu defnyddio unrhyw gyllid canlyniadol drwy fformiwla Barnett sy'n codi o'r penderfyniad a wnaed yn Lloegr.*

Er i'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth gael ei chwblhau ym mis Medi 2024, mae gofyniad cyllidebol parhaus i gefnogi'r broses o barhau â'r ddarpariaeth hon. Felly, cynhelir y gyllideb yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Bwyd a Maeth mewn Ysgolion ar £93.5m yn 2026-27. Mae'r gyllideb Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd yn seiliedig ar alw, gyda'r cyllid terfynol yn seiliedig ar y niferoedd gwirioneddol sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, a chaiff y gyllideb ei hadolygu'n rheolaidd.

Byddai ehangu prydau ysgol am ddim i'r holl ddysgwyr ysgolion uwchradd sy'n cael Credyd Cynhwysol o fis Medi 2026 yn ymrwymiad polisi ac ariannol sylweddol. Er bod hyn yn mynd y tu hwnt i gwmpas y fframwaith cyllidebol y cytunwyd arno ar gyfer 2026-27, rydym yn cydnabod pwysigrwydd parhau i gefnogi llesiant dysgwyr. Bydd unrhyw benderfyniad i barhau yn galw am ystyriaeth ofalus o fewn cyd-destun cynllunio cyllideb yn y dyfodol a blaenoriaethau strategol. Rydym yn parhau i adolygu'r meini prawf cymhwysedd presennol ac yn ymrwymedig o hyd i archwilio'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn cwmpas adnoddau presennol.

Un o egwyddorion hirsefydlog datganoli yw nad yw cyllid canlyniadol yn cael ei glustnodi'n awtomatig at ddibenion tebyg mewn llywodraethau datganoledig. Mater i Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, yw penderfynu sut i ddyrannu cyllid Llywodraeth Cymru. Pan fydd achos dros ddefnyddio cyllid canlyniadol at ddibenion tebyg, bydd Gweinidogion Cymru yn asesu ac yn ystyried ble y bydd yr effaith fwyaf, yn unol ag amgylchiadau Cymru a'r blaenoriaethau.

*Dadansoddiad o unrhyw gyllid grant a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn 2025-26 ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd.*

Mae dyraniadau grant i awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfradd o 86%, a cheir dadansoddiad yn Atodiad E. Fel y nodwyd, caiff y cyllid terfynol ei gadarnhau a'i dalu yn seiliedig ar nifer gwirioneddol y bobl sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, felly, gall y cyllid gwirioneddol a dderbynnir gan bob awdurdod lleol fod yn wahanol i'r dyraniadau dangosol hyn.

*Unrhyw gyllid arall o fewn y MEG Addysg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â chostau byw a'r gydberthynas negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, er enghraifft rhaglen gwella gwyliau'r haf/haf o hwyl/prosiectau bwyd a hwyl, gan gynnwys esboniad diwygiedig o sut mae'r prosiectau hyn a'r ffrydiau cyllido yn ymwneud â'i gilydd.*

Yn 2025-26, gwnaethom ddyrannu £1m ychwanegol i'r BEL Bwyd a Maeth i ehangu Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP), gan fynd â chyfanswm y cyllid a ddarperir i £5.85m. Yn ystod haf 2025, cymerodd 324 o ysgolion ledled Cymru ran

yn y rhaglen gan gynnig lleoedd i 14,850 o ddysgwyr bob diwrnod gweithredu. Rydym yn cynnal lefelau cyllido ar gyfer SHEP ar y lefel hon yn 2026-27.

## Y gweithlu addysg

***Manylion dyraniadau'r gyllideb i ariannu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), gan gynnwys cyllid a mentrau sydd wedi'u targedu at fynd i'r afael â phrinder mewn pynciau neu feysydd penodol, ac unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud o'u heffeithiolrwydd a'u gwerth am arian.***

Mae cyllid penodol yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon o hyd i gefnogi AGA:

- £2.85m i gynnig y 'llwybrau AGA amgen. Dyma'r TAR Rhan-Amser a'r TAR Cyflogedig. Ar gael ledled Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg gan gwmpasu pynciau blaenoriaeth cynradd ac uwchradd. Mae'r llwybrau AGA amgen yn ymrwymiadau o dan gynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg a chynllun Cymru Wrth-hiliol. Mae'r cyllid yn darparu grantiau, sy'n cynnwys grantiau hyfforddi i fyfyrwyr a grantiau cyfraniad cyflog i ysgolion sy'n cefnogi athro dan hyfforddiant ar y TAR cyflogedig. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw ac mae'r gwariant yn dibynnu ar lefelau recriwtio i'r rhaglen.
- £2.72m i barhau i gynnig cynlluniau cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y bwriedir iddynt helpu i recriwtio i'r proffesiwn drwy AGA. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu ar lefelau recriwtio i'r rhaglenni TAR amser llawn a rhan-amser.
- £0.745m ar gyfer cynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory, sydd wedi'i anelu at athrawon dan hyfforddiant sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r Gymraeg fel pwnc. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu ar lefelau recriwtio i'r rhaglenni AGA amser llawn a rhan-amser.
- Bydd £0.160m yn parhau i fod ar gael yn 2026-27 i gefnogi costau sy'n gysylltiedig â datblygu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn parhau i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i greu sector AGA o ansawdd uchel.
- Caiff hyd at £0.250m ei ddyrannu unwaith eto yn 2025-26 i barhau â'r ymgyrch cyfathrebu a marchnata ar gyfer 'Addysgu Cymru', sy'n parhau i ddatblygu yn seiliedig ar wybodaeth am y gynulleidfa a gwaith ymchwil.

Mae cyllid ychwanegol o £2.5m yn 2026-27 hefyd wedi'i ddarparu i Medr yn benodol ar gyfer cefnogi prifysgolion â chostau Addysg Gychwynnol Athrawon (gweler yr adran ar Medr ac Addysg Uwch).

***Manylion dyraniadau'r gyllideb i gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon presennol, gan gynnwys yng ngoleuni'r diwygiadau addysg parhaus.***

Rydym am i bob ymarferydd gael cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Rydym wedi sefydlu Dysgu, corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth cenedlaethol newydd a sefydlwyd ar 1 Medi 2025. Mae Dysgu yn dwyn ynghyd swyddogaethau'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, rhai o swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a phartneriaethau awdurdodau lleol, gyda rhai swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru. Bydd Dysgu yn gyfrifol am lunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth arwain yn genedlaethol mewn ymateb i flaenoriaethau newidiol ymarferwyr a Llywodraeth Cymru.

Yn 2026-27, byddwn yn dyrannu tua £40m er mwyn helpu i ddatblygu a chynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae hyn yn ystyried y cyllid a roddwn i Gyngor y Gweithlu Addysg i ariannu ein rhaglen sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso, a adroddwyd yn hanesyddol o dan ddyraniad cyllideb Cyngor y Gweithlu Addysg.

Bydd cyllid o £18.5m ar gyfer dysgu proffesiynol yn aros yn elfen Diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol:

- y caiff £13.5m ohono ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion, sy'n gyson â 2025-26;
- y bydd tua £5m ohono ar gael i awdurdodau lleol er mwyn hwyluso cyfleoedd dysgu proffesiynol lleol. Mae hyn yn ostyngiad o £0.285m o gymharu â 2025-26 gan mai'r bwriad yw i'r cyllid ar gyfer rhaglen arweinwyr y dyfodol drosglwyddo i Dysgu.

Bydd £1.4m pellach yn aros yn elfen Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg yn unol â bwriadau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Caiff cyllid o £4.9m ei ddyrannu i ddysgu proffesiynol i gefnogi'r gwaith o feithrin sgiliau Cymraeg ymarferwyr drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys £3.8m a ddyrennir i'r cyrsiau Cynllun Sabothol.

Caiff cyllid o tua £5.5m ei ddyrannu i Gyngor y Gweithlu Addysg i ariannu'r rhaglen sefydlu a'r cymorth gyrfa gynnar i Athrawon Newydd Gymhwyso.

Caiff y £9.5m sy'n weddill ei ddyrannu i amrywiaeth o raglenni dysgu proffesiynol i gefnogi athrawon, arweinwyr a chynorthwywyr addysgu, gan gynnwys y CPCP a rhaglenni arweinyddiaeth, graddau Meistr (MA) a Doethuriaeth (EdD) cenedlaethol mewn addysg, a dysgu proffesiynol i gefnogi gwelliannau mewn addysg a dysgu ac i feithrin sgiliau ymholi ymarferwyr. Caiff y cyllid hwn ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru a Dysgu yn unol â chynllun trawsnewid.

*Gwybodaeth am y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.*

Mae'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon yn cynnwys darpariaeth cyllid adnoddau o ychydig dros £1m i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn 2026-27, y mae £0.381m ohono'n refeniw i gefnogi swyddogaethau craidd CGA (na chânt eu cwmpasu drwy incwm o ffioedd cofrestru) a £0.681m nad yw'n arian parod i dalu costau dibrisiant. Mae'r gyllideb refeniw yn cynnwys £0.038m ychwanegol ar gyfer cynnydd mewn cyflog ac Yswiriant Gwladol yn 2025-26 ar sail llinell sylfaen i 2026-27, gyda £0.08m arall wedi'i ddyrannu i roi cymorth ar gyfer y rownd nesaf o ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn 2026-27. Ar gyfer 2026-27, mae cyllideb gyfalaf o £0.180m wedi'i ddyrannu i gefnogi gofynion cyfalaf CGA.

Caiff cyllid grant gwerth cyfanswm o tua £6.7m ar gyfer gweithgarwch a gynhelir gan CGA ar gais, neu ar ran, Llywodraeth Cymru ei ddyrannu yn 2026-27, ar gyfer gweinyddu a hysbysu am Statws Athro Cymwysedig ac apeliadau sefydlu ac ardystio; gwefan Addysgwyr Cymru; rhaglen sefydlu; pasbort dysgu proffesiynol a chymorth ar gyfer dadansoddi data a gwiriadau cofrestru.

*Gwybodaeth am gyllid i sefydlu ac ariannu'r corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth cenedlaethol newydd. Sut mae hyn yn cymharu â'r cyllid ar gyfer yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac a yw'r cyllid ar gyfer y corff newydd yn disodli hyn yn uniongyrchol.*

Sefydlwyd Dysgu drwy ddiwygio'r Erthyglau Cymdeithasu ac enw'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol gynt. Cyhoeddwyd cylch gwaith a llythyrau cyllido cyn i Dysgu ddod yn weithredol ar 1 Medi 2025.

Y cyllid ar gyfer yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn ystod 2024-25, sef ei flwyddyn weithredol lawn olaf, oedd £1.854m. Bydd cyllid ar gyfer Dysgu yn 2026-27 yn disodli hyn yn uniongyrchol, gyda chyllid ychwanegol i adlewyrchu ei gylch gwaith gwell.

Bydd cyllid ychwanegol ar gyfer Dysgu o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2026-27 yn cynnwys mwy o gyllid craidd ar gyfer staffio a gweithrediadau, a chyllid rhaglen dysgu proffesiynol. Caiff cyllid o £0.8m hefyd ei gynnal ar gyfer y rhaglen CPCP. Caiff cyllid y rhaglen ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru a Dysgu yn unol â chynllun trawsnewid i drosglwyddo rhaglenni o Lywodraeth Cymru i Dysgu. Yn ystod y flwyddyn drawsnewid (blwyddyn academaidd 2025/26), caiff cyllid ar gyfer rhai rhaglenni eu cadw gan Lywodraeth Cymru i ddechrau.

*Manylion am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i dalu costau'r dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, gan gynnwys dadansoddiad rhwng blynyddoedd ariannol 2025-26 a 2026-27 a'r priod systemau dan sylw (boed yn grant uniongyrchol neu'n ddarpariaeth wedi'i hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol).*

Yn fy natganiad ysgrifenedig ar 17 Gorffennaf 2025, nodais fy mhenderfyniad mewn perthynas â chyflog athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 4% i'w roi ar waith o fis Medi 2025.

Ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2025 i fis Mawrth 2026 (blwyddyn ariannol 2025-26), rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol o £10.411m i Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Bydd telerau ac amodau y grant hwn yn nodi bod yn rhaid dyrannu'r cyllid yn benodol ar gyfer cyflog athrawon. Effaith blwyddyn ariannol lawn y cytundeb cyflog o 4% yw £17.8m yn 2026-27. Caiff y cyllid hwn ei ddarparu i Awdurdodau Lleol ar sail llinell sylfaen fel rhan o'r Grant Cynnal Refeniw (MEG Tai a Llywodraeth Leol) ar gyfer 2026-27.

Er mwyn sicrhau cydraddoldeb cyflog ar gyfer athrawon addysg bellach a chweched dosbarth, a ariennir drwy Medr, caiff £3.3m o gyllid ychwanegol ei ddyrannu i'r MEG Addysg yn 2025-26 ar gyfer Medr, gydag ychydig o dan £5.1m yn cael ei bennu ar sail llinell sylfaen yn y BEL Medr ar gyfer 2026-27, ynghyd â £6m arall er mwyn darparu ar gyfer effaith blwyddyn ariannol lawn dyfarniad cyflog 2025/26.

*Gwybodaeth am unrhyw gyllid i gefnogi polisi ynghylch y gweithlu athrawon cyflenwi.*

Yn 2023, gwnaethom ddechrau cyflwyno pwll cyflenwi cenedlaethol yn Ynys Môn. Roedd y trefniadau a oedd eisoes ar waith ar gyfer y rhestr o athrawon cyflenwi yn Ynys Môn, lle’r oedd yr awdurdod lleol eisoes yn gweithredu fel cyflogwr ar gyfer athrawon cyflenwi, yn golygu bod hon yn ardal addas i ddechrau cyflwyno’r ddarpariaeth hon ynddi i gychwyn. Cynhaliodd swyddogion uwchgynhadledd yn 2024 gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys undebau ac awdurdodau lleol, i drafod cynnydd a chamau nesaf ar gyfer cefnogi athrawon cyflenwi yng Nghymru. Wrth archwilio opsiynau i gyflwyno pwll cyflenwi cenedlaethol, gwelwyd bod pob opsiwn yn cyflwyno heriau sylweddol, gan adlewyrchu'r dulliau gwahanol o gaffael staff cyflenwi ar draws awdurdodau lleol gwahanol. Roedd yn amlwg bod y pwll cyflenwi wedi gweithio'n dda yn y peilot gydag Ynys Môn. Fodd bynnag, heb ymrwymiad gan yr awdurdodau lleol i fabwysiadu’r model ar gyfer y pwll cyflenwi, ni fyddai'n sicrhau buddiannau bwriadedig telerau ac amodau Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) na mynediad at y cynllun pensiwn athrawon ar sail genedlaethol. Felly, nodais mewn datganiad ysgrifenedig ar 3 Ebrill 2025 fy mod wedi penderfynu cau'r gwaith ar ddatblygu Pwll Cyflenwi Cenedlaethol i Gymru.

Mae gwaith pellach i ddatblygu ein cynigion ar gyfer cyflenwi absenoldebau athrawon bellach yn cael ei ddatblygu gyda'n partneriaid a byddaf yn nodi'r camau nesaf yn y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg Strategol. Mae Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a

Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi gwneud nifer o argymhellion perthnasol a gaiff eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

Bydd y costau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith hwn. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol yn y gyllideb o fewn y MEG Addysg yn 2026-27 ac, felly, byddai angen i unrhyw gostau yn y dyfodol gael eu talu o'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon.

## Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

*Y ddarpariaeth gyllidebol o'r MEG Addysg yn 2026-27 ar gyfer y dull system/ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl.*

Y gyllideb sylfaenol ddangosol ar gyfer y dull ysgol gyfan yw £14.3m ar gyfer 2026-27 sy'n cynnwys £7m o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler isod) a £7.3m o'r MEG Addysg, sy'n gynnydd o £0.670m o gymharu â 2025-26. Yn y MEG Addysg, caiff y dull ysgol gyfan ei ariannu o'r BEL Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) a'r BEL Dull Ysgol Gyfan.

O fewn elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol mae cyllid i awdurdodau lleol wedi'i gynnal ar £4.75m yn 2026-27, sy'n cynnwys £3.3m ar gyfer cwnsela mewn ysgolion, £1.1m ar gyfer hyfforddiant ac ymyriadau a £0.350m ar gyfer darpariaeth UCD.

Bydd y cyllid sy'n weddill yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant (£2.537m) yn cefnogi amrywiaeth o weithgarwch a gwaith megis datblygu adnoddau ac ymchwil a gwerthuso. Mae'r swm hwn yn cynnwys £0.670m ychwanegol o 2026-27, i adeiladu ar y gwaith a wnaed ar draws lleoliadau addysg mewn blynyddoedd blaenorol i ymgorffori cymorth ymarfer sy'n ystyriol o drawma a rhoi'r fframwaith cenedlaethol ar waith.

*Manylion unrhyw arian o'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.*

Mae gwerth £7m o gyllid yn cael ei gynnal ar gyfer y dull ysgol gyfan o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2026-27, gan gydnabod natur drawsbynciol y gwaith hwn a phwysleisio ein hymrwymiad i fynd ar drywydd yr agenda hon. Bydd y cyllid hwn, ynghyd â'r cyllid yn y MEG Addysg, yn sicrhau y gallwn gefnogi anghenion llesiant, o feithrin gwydnwch i ddarparu ymyriadau mwy penodol ar gyfer dysgwyr er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion heb gynnwys gwasanaethau arbenigol, gan arwain at arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Mae £5.6m o'r cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd yn uniongyrchol i Fyrddau Iechyd Lleol i gefnogi gwasanaeth Mewngymorth mewn Ysgolion CAMHS. Mae gwaith ar droed i newid hwn o wasanaeth ar wahân i un

sydd wedi'i gynnwys o fewn CAMHS arbenigol. Bydd cyllid i Fyrddau Iechyd Lleol yn cefnogi hyn ac yn ei gynnal yn y dyfodol.

*Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc mewn addysg ôl-16.*

Mae Medr yn dyrannu cyllid i ddarparwyr i gefnogi iechyd meddwl a llesiant. Yn 2025-26, darparodd Llywodraeth Cymru £2m ychwanegol i Medr i gefnogi buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant mewn addysg uwch ac addysg bellach. Bydd angen i Medr bennu ei gymorth a gynlluniwyd ar gyfer iechyd meddwl a llesiant mewn addysg bellach ac addysg uwch gyda'i ddyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.

*Y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y cynllun gweithredu a'r ymateb ehangach i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr.*

Bydd cyllid o fewn y BEL Trechu Dadrithiad ar gael o hyd yn 2026-27 er mwyn cefnogi ein hymateb parhaus i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a chefnogi'r broses o roi'r cynllun gweithredu i atal aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar waith, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn canolbwyntio ar leoliadau addysg gynradd ac uwchradd (a gynhelir ac annibynnol) ac ar sefydliadau addysg bellach. Mae gwaith yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Glasbrint ar gyfer gweithredu. Yn ogystal â hynny, drwy'r BEL Cwricwlwm ac Asesu, rydym yn ariannu Stori Wales gan ddarparu £1.499m yn 2026-27 ar gyfer ail flwyddyn Prosiect Addysg Cwtch o dan raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru. Mae hwn yn darparu cymorth cenedlaethol i ysgolion ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gan roi i ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth drawsgwricwlaidd ar gyfer sefydlu'r dysgu yn effeithiol, gan gynnwys camau gweithredu i sicrhau bod llais y dysgwr yn parhau i gael lle canolog.

## Ymddygiad a thrais

*Cyllid a ddarperir o'r MEG Addysg ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau sy'n codi o ymddygiad a thrais mewn ysgolion a cholegau (gan gynnwys er enghraifft gweithredoedd sy'n codi o'r cyfarfod bord gron ar drais a diogelwch a'r uwchgynhadledd ymddygiad genedlaethol – y cynhelir y ddau ohonynt ym mis Mai).*

Mae hyd at £0.9m wedi'i ddyrannu yn 2025-26 i gefnogi'r Cyfarfod Bord Gron ar Ddiogelwch a Thrais a'r Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol, ynghyd â gwaith dilynol cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys costau'r digwyddiadau yn ogystal â gwaith i ddatblygu'r pum cam gweithredu uniongyrchol a nodwyd. Rydym yn trafod â'r pedwar Heddlu, gan fuddsoddi mewn cynlluniau peilot i fynd i'r afael â

dadrithiad ac ymddieithriad, ac yn ariannu ymchwil bellach sy'n adeiladu ar adroddiadau thematig Estyn a'r ymchwil a gyhoeddwyd gan Brifysgol Bangor cyn yr uwchgynhadledd. Dim ond cyfran o'r cyllid sydd ar gael i wasanaethau addysg ledled Cymru yw'r cyllid yn y MEG Addysg. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw penderfynu ar lefel y cyllid fydd ar gael i ysgolion, fel rhan o'u proses gyffredinol ar gyfer gosod y gyllideb ar sail y cyllid fydd ar gael iddynt drwy'r setliad llywodraeth leol.

## Absenoldeb disgyblion

*Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth benodol yn y gyllideb i fynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion neu pa linellau yn y gyllideb sy'n cefnogi gwaith o'r fath yn fwy cyffredinol (gan gynnwys er enghraifft Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ac Ysgolion Bro).*

Ar gyfer 2026-27, mae £2.5m ychwanegol yn cael ei ddyrannu drwy elfen Tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi presenoldeb ac ymyriadau sydd â'r nod o drechu dadrithiad, ymgysylltu â theuluoedd a chefnogi dysgwyr.

Mae hyn yn cynnwys £1m ychwanegol yn 2026-27 i gefnogi ysgolion ledled Cymru i ddarparu gweithgareddau creadigol, diwylliannol, chwaraeon a gweithgareddau cyfoethogi sy'n seiliedig ar chwarae, gan fynd â chyfanswm y cyllid i £3m. Mae hyn yn adeiladu ar £0.3m yn 2024-25 a £2m yn 2025-26 (y ddau fel rhan o becyn o gyllid i fynd i'r afael ag absenoldeb a chefnogi ymgysylltiad). Mae hyn yn adeiladu ar waith blaenorol ar gyfoethogi o fewn ac o amgylch y diwrnod ysgol a arweiniodd at ganlyniadau cadarnhaol.

Yn 2026-27, byddwn hefyd yn darparu £1m ychwanegol i gefnogi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ledled Cymru. Mae hyn yn adeiladu ar y £3m ychwanegol a ddyrannwyd o 2025-26 ac mae'n mynd â chyfanswm y cyllid i £10.5m yn 2026-27. Mae Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn effeithiol iawn wrth estyn allan at rieni a gofalwyr a'u cynnwys yn nysgu eu plant.

Yn 2025-26, gwnaethom ddarparu £1m ychwanegol i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o rannu arferion gorau, dysgu proffesiynol ac ymgorffori dulliau Ysgolion Bro ledled Cymru. Ar gyfer 2026-27, rydym yn dyrannu £0.5m ychwanegol i gefnogi'r gweithgarwch hwn.

## Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

*Gwybodaeth am y modd y mae'r MEG Addysg yn helpu i ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc, boed hynny yn yr ysgol neu'r tu allan iddi, a sut mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gyllid yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol megis ar gyfer Pwysau Iach, Cymru Iach.*

Mae cymorth a ddarperir i ysgolion a chymunedau ar gyfer gweithgarwch corfforol yn cael ei ariannu'n bennaf gan awdurdodau lleol, drwy'r setliad Llywodraeth Leol. Mae cynllun cyflawni Pwysau Iach Cymru Iach ar gyfer 2025-27 yn nodi camau gweithredu ar gyfer gweithgarwch corfforol mewn ysgolion a lleoliadau. Nod Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS), o dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, yw hybu iechyd a llesiant pob un sy'n dysgu, gweithio, a chwarae yn ysgolion Cymru drwy fabwysiadu agwedd ysgol gyfan tuag at iechyd a llesiant. Fel rhan o safonau newydd arfaethedig y rhwydwaith, bydd cyfres o offerynnau asesu thematig ar bynciau iechyd a llesiant allweddol yn cael ei ddatblygu i ystyried sut y gellir mabwysiadu agwedd ysgol gyfan at flaenoriaethau fel gweithgarwch corfforol.

O ran y MEG Addysg, mae angen cymorth ar ysgolion i ddatblygu trefniadau cwricwlaidd sy'n helpu dysgwyr i fod yn iach ac, yn ei dro, yn barod i ddysgu. Mae iechyd a llesiant yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid o dan raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru, a ariennir drwy'r BEL Cwricwlwm ac Asesu, lle y mae dyfarniadau ar gyfer iechyd a llesiant yn cael eu hystyried ymhellach.

Mae Adnodd, y corff adnoddau addysg newydd, yn blaenoriaethu'r gwaith o gomisiynu adnoddau iechyd a llesiant ac mae'r rhaglen gymorth genedlaethol ar gyfer y cwricwlwm yn cefnogi dysgu proffesiynol o ran dylunio'r cwricwlwm.

*Sut mae cyllid cyfalaf drwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cefnogi chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymysg plant a phobl ifanc.*

Mae ein Rhaglen Dreigl naw mlynedd newydd yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod ysgolion yn canolbwyntio mwy ar gymuned fel bod cyfleusterau, gan gynnwys amwynderau chwaraeon, ar gael i bawb. Mae defnydd gan y gymuned, ymgysylltiad ac iechyd a llesiant ein plant a'r gymuned ehangach yn ofyniad allweddol yn ein Rhaglenni Amlinellol Strategol i randdeiliaid ar gyfer buddsoddiad.

Mae cyllid cyfalaf wedi llwyddo i ddatblygu blaenoriaethau ysgolion bro, gan hyrwyddo'r broses o gydleoli gwasanaethau cymorth ac asedau cymunedol gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon. Mae hyn wedi amrywio o lifoleuadau, cyfleusterau storio a chyfleusterau newid i gyflwyno caeau 3G newydd, canolfannau llesiant a chwaraeon (ceir rhagor o fanylion yn yr adran ar gyfalaf Ysgolion Bro).

## Cymorth ar gyfer dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

*Manylion cyllid i gefnogi addysg dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2026-27 a sut mae'n cael ei ddosbarthu fel rhan o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.*

Rydym yn parhau i ddarparu £11m i awdurdodau lleol yn 2026-27 drwy elfen Tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac i ariannu'r gwasanaethau cymorth pwysig hyn. Mae'r cyllid hwn wedi cefnogi'r broses o ddatblygu ac ymgorffori cyfoeth o arbenigedd ac ymarfer da mewn lleoliadau addysg ledled Cymru.

Mae fformiwla dyrannu'r grant MEGRT yn dosbarthu cyllid i awdurdodau lleol yn seiliedig ar nifer y dysgwyr cymwys. Mae'r fformiwla hon yn seiliedig ar nifer y plant a phobl ifanc sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol (heb gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr), ynghyd â nifer y plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC). Er mwyn lleihau unrhyw amrywiad mawr posibl o un flwyddyn i'r llall oherwydd newidiadau i ddata, mae'r data wedi'u cydgasglu dros dair blynedd.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

***Crynodeb wedi'i ddiweddaru o sefyllfa cyllid ar gyfer cefnogi dysgwyr â'u ADY, o'r BEL ADY ac elfen Ddiwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.***

Caiff cyllid wedi'i neilltuo ei ddyrannu drwy elfen Diwygio Addysg y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i gynnig darpariaeth i ddysgwyr ag ADY ledled Cymru. Ers 2020, dosbarthwyd dros £150m o refeniw i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, gyda chyllid yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall. Mae ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27 yn sicrhau cynnydd o £5m yn y buddsoddiad mewn ADY, gan fynd â'r cyllid blynyddol drwy elfen ddiwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol i £37m y 2026-27. Mae hyn yn adeiladu ar £32m a ddyrannwyd yn wreiddiol yn 2025-26 ac mae'n sicrhau bod y £5m ychwanegol o gyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer ADY mewn ysgolion, a gyhoeddwyd yn fy natganiad llafar ar 14 Hydref, yn cael ei ddyrannu'n gylchol o 2026-27 ymlaen.

Caiff £5.6m ei gynnal o fewn y BEL ADY i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau strategol a gweithredol sydd â'r nod o ymgorffori a chynnal y system ADY ledled Cymru. Mae'n ariannu dysgu proffesiynol a hyfforddiant achrededig ar gyfer seicolegwyr addysgol, mae'n galluogi gwerthusiad ac ymchwil, data, gwaith cynghori cyfreithiol a deddfwriaethol, mae'n cefnogi arweinwyr gweithredu cenedlaethol, grantiau arloesi wedi'u targedu a swyddi a ariennir drwy'r rhaglen, ac mae'n cyfrannu at wella hyder a dealltwriaeth o ADY. Hefyd, mae'n cwmpasu mentrau allweddol fel datblygu adnoddau drwy Adnodd.

Ar gyfer 2025-26, caiff £2.3m ychwanegol ei ddyrannu (o gronfeydd wrth gefn) i gefnogi'r broses o symud Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i'r raddfa gyflog arweinyddiaeth. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i'r BEL ADY a chaiff ei ddosbarthu drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn y flwyddyn ariannol hon.

Ar gyfer cyllideb ddrafft 2026-27, mae £4m yn cael ei ddyrannu ar sail llinell sylfaen o fewn y Grant Cynnal Refeniw (MEG Tai a Llywodraeth Leol) i gefnogi awdurdodau lleol â'r effaith gylchol ar gyfer Cydlynwyr ADY.

Gofynnir i Medr ddarparu cyllid ychwanegol o £4.1m i golegau AB o fewn ei ddyraniad uwch i gydnabod costau cynyddol Cymorth Ychwanegol i Ddysgwyr a datblygu Cynlluniau Datblygu Unigol statudol ar gyfer dysgwyr ag ADY.

*Goblygiadau'r adolygiad a gynhaliwyd a'r hyn y mae hyn wedi'i ddangos am lefelau gofynnol cyllid ADY.*

Mae'r adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol ADY wedi nodi, er bod egwyddorion cynhwysiant a chynllunio sy'n canolbwyntio ar y person wedi'u cefnogi'n gryf o hyd, bod heriau sylweddol wrth gyflawni'r system yn gyson ledled Cymru. Mae gan yr heriau hyn oblygiadau ar adnoddau awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud drwy weithgor gydag awdurdodau lleol i ddeall y pwysau ariannol i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth plant a phobl ifanc ag ADY.

*Asesiad wedi'i ddiweddaru ynghylch a yw'r diwygiadau ADY yn niwtral o ran cost.*

Rydym yn cydnabod, er y bwriadwyd yn wreiddiol i'r diwygiadau ADY fod yn niwtral o ran cost, bod y dystiolaeth gyfredol yn dangos bod y gwaith o'u rhoi ar waith wedi arwain at gostau ychwanegol sylweddol. Mae rolau newydd, systemau newydd a dyletswyddau statudol newydd, ynghyd â'r amser sy'n ofynnol i symud dysgwyr o'r system AAA i'r system ADY, wedi arwain at gostau ariannol i ysgolion ac awdurdodau lleol, sydd wedi'u hadlewyrchu yn y cynnydd mewn cyllid drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Ar yr un pryd, bu cynnydd yn y galw am gymorth a chynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion y mae angen cymorth arbenigol ar eu cyfer. Rhoddwyd cyllid wedi'i dargedu i gefnogi'r ddarpariaeth, ac mae gwerthusiad ac adolygiad parhaus o ddulliau ariannu yn mynd rhagddynt i sicrhau bod y system yn gynaliadwy o hyd.

*Gwybodaeth am sut y cafodd cyllid ar gyfer darpariaeth ADY ei gynnwys yn yr adolygiad o'r fformiwla cyllido ysgolion a'r modd y caiff ei ystyried fel rhan o Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026.*

Nododd yr adolygiad fod amrywioldeb wrth ddirprwyo ar gyfer ADY yn cymhlethu cymariaethau ariannol ar draws awdurdodau lleol gydag amrywiaeth o ffactorau yn cael eu defnyddio i ddyrannu'r cyllid hwn i ysgolion unigol. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai cyllid ADY greu ei ffrwd gyllido ei hun o fewn y gyllideb ddirprwyedig.

*Y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru ac unrhyw drefniant cyllid grant gyda sefydliadau addysg uwch, er enghraifft Prifysgol Caerdydd.*

Rydym yn parhau i ariannu hyfforddiant i seicolegwyr addysgol newydd. Gwnaethom gytuno i ddarparu grant wedi'i ddiweddaru gwerth mwy na £4.2m i Brifysgol Caerdydd dros chwe blwyddyn ariannol o 2025-26 er mwyn sicrhau unig Ddoethuriaeth Cymru mewn Seicoleg Addysgol a sicrhau cyflenwad o ddeg seicolegydd addysg cymwysedig bob blwyddyn. Rhaid i hyfforddeion ymrwymo i dreulio dwy flynedd gyntaf eu gyrfa yn gweithio i awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhaid i o leiaf tri bwrsari y flwyddyn fod ar gyfer siaradwr Cymraeg rhugl neu fyfyriwr sydd â'r dawn a'r ymrwymiad i gyrraedd safon a fydd yn eu galluogi i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn iddynt raddio.

## Estyn

*Manylion dyraniad cyllideb craidd Estyn ar gyfer 2026-27 ac ym mha MEG/BEL* y mae wedi'i nodi.

Dyraniad cyllideb craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Estyn, yn y MEG Addysg, yw £16.618m ar gyfer 2026-27, gan gynnwys adnoddau cyllidol gwerth £16.092m, adnoddau anghyllidol gwerth £0.276m a chyfalaf gwerth £0.25m. Er bod hyn yn ostyngiad ar adnoddau cyllidol o £0.714m o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27, nid yw hyn yn cynrychioli cyllid wedi'i gwtogi ac mae o ganlyniad i drosglwyddiad cylchol o £2.04m i'r BEL Gwariant Rhaglen Medr. Mae hyn yn cydnabod y ffaith bod Medr wedi dechrau ei gyfrifoldebau i ariannu Estyn ar gyfer arolygiadau addysg a hyfforddiant ôl-16 o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 o fis Ebrill 2026.

Heb gynnwys trosglwyddo cyllid i'r BEL Gwariant Rhaglen Medr, mae cyllideb Estyn yn cael cynnydd o £1.3m yn 2026-27 i gefnogi ei dyletswyddau statudol i arolygu a'i galluogi i barhau â'i chylch arolygu chwe blynedd a gyflwynwyd ym mis Medi 2024. Rydym hefyd wedi pennu llinell sylfaen ar gyfer cyllid 2026-27 ar gyfer cyflog y sector cyhoeddus a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn 2025-26 sy'n cyfateb i £0.319m.

Nid yw cyllideb gyfalaf a chyllideb heb fod yn arian parod Estyn wedi newid ar gyfer 2026-27.

*Canlyniad y gwaith a wnaed gydag Estyn i reoli effaith peidio â gallu darparu unrhyw gyllid ychwanegol yr adeg hon y flwyddyn ddiwethaf (heblaw cynnydd chwyddiannol) i gefnogi'r cylch arolygu newydd (y soniwyd amdano ym mhapur y flwyddyn ddiwethaf).*

Er na allwn roi cyllid ychwanegol i Estyn y tu hwnt i gynnydd chwyddiannol ar gyfer 2025-26 (£0.4m), rydym yn cydweithio'n agos ag Estyn i reoli ei gofynion cyllido ar

gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fel yr amlinellwyd, mae Estyn yn cael cynnydd o £1.3m o 2026-27 i sicrhau sylfaen cyllido mwy cynaliadwy ar gyfer blynyddoedd i ddod.

## Cymwysterau

*Manylion cyllid a ddyrannwyd i Cymwysterau Cymru yn 2026-27 ac asesiad wedi'i ddiweddaru o b'un a oes ganddo ddigon o gyllid i gyflawni ei gylch gwaith ac unrhyw waith diwygio a ddisgwylir ganddo.*

Y dyraniad cyllideb cyfan ar gyfer Cymwysterau Cymru yw £11.339m ar gyfer 2026-27, sy'n cynnwys £10.744m ar adnoddau cyllidol, £0.345m ar adnoddau anghyllidol a £0.250m ar gyfalaf. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £0.183m mewn adnoddau cyllidol o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27, er mwyn darparu cymorth ar gyfer y cylch nesaf o ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn 2026-27. Rydym hefyd wedi pennu llinell sylfaen ar gyfer cyllid 2026-27 ar gyfer cyflog y sector cyhoeddus a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn 2025-26 sy'n cyfateb i £0.170m. Nid yw'r gyllideb gyfalaf na'r gyllideb adnoddau anghyllidol wedi newid ac fe'u cynhelir ar yr un lefel â 2025-26.

## Cymraeg mewn Addysg

*Manylion dyraniadau yn y MEG Addysg i gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg mewn addysg, a rôl y sector addysg o ran cyrraedd targed Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg.*

Nododd Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021 i 2026, ein cynllun ar gyfer tymor y Senedd hon. Mae gan y sector addysg rôl bwysig i'w chwarae i gyflawni targedau uchelgeisiol *Cymraeg 2050*: dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg a sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r BEL Cymraeg mewn Addysg, y BEL Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol), y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon, ynghyd â'r rhai eraill ar draws y MEG, yn parhau i gyfrannu at ein gwaith i gyflawni'r targedau hynny yn y sector addysg.

Mae Adnodd yn parhau i oruchwylio'r broses o gomisiynu a datblygu adnoddau addysgol, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd. Ar ôl trosglwyddo cyllideb Adnodd i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu yn dilyn y newid mewn nawdd, mae'r BEL Cymraeg mewn Addysg ychydig o dan £4m ar gyfer 2026-27. Mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu cymorth i Mudiad Meithrin er mwyn cynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg drwy brosiectau Sefydlu a Symud.

Mae'r gyllideb ar gyfer elfen Cymraeg 2050 o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn cynyddu £0.7m i ychydig o dan £9.5m yn 2026-27, er mwyn sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth trochi yn y Gymraeg yn cael ei wneud yn gylchol.

Bydd cyllid yn parhau i gefnogi'r broses o gyflawni *Cymraeg 2050* ac mae'n hanfodol ar gyfer cyflawni Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Ceir rhagor o fanylion am gymorth ar gyfer dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg i ymarferwyr yn yr adran ar y Gweithlu Addysg.

Bwriedir i gam nesaf y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fynd law yn llaw â chyflwyno'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd ac, felly, mae cynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau buddsoddi cyfalaf y Rhaglen Dreigl 9 Mlynedd yn adlewyrchu gofynion a thargedau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

*Sut mae dyraniadau yn y MEG Addysg yn berthnasol i gyllidebau eraill sy'n cefnogi'r Gymraeg, er enghraifft Camau Gweithredu y Gymraeg yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.*

Fel y nodwyd eisoes, mae *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* yn cael ei roi ar waith mewn partneriaeth ym mhob rhan o'r llywodraeth. Caiff y Gymraeg ei phrif-ffrydio ar draws sawl maes portffolio, gyda chyllid yn y MEG Addysg, ynghyd â chyllid ar gyfer y Gymraeg yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, yn chwarae rôl bwysig yn y broses o gyflawni *Cymraeg 2050* a rhoi Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ar waith.

*Ble mae cyllid ar gyfer rhoi Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ar waith wedi'i leoli yng nghyllideb Llywodraeth Cymru a faint a gaiff ei ddyrannu.*

Caiff cost rhoi Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ar waith ei hariannu o'r BELau presennol yn y MEG Addysg a'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Cyflwynwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n nodi'r costau a'r buddiannau sy'n deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf gerbron y Senedd pan gyflwynwyd y Bil ar 15 Gorffennaf 2024. Roedd yr asesiad hwn yn nodi cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth, sef £103m dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd rhwng 2025 a 2026, sy'n cynnwys costau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, Estyn a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol – yr "Athrofa", a gaiff ei sefydlu gan y Ddeddf. Yn 2025-26, dyrannwyd £0.125m yn 2025-26 fel bod modd gwneud gwaith paratoi mewn perthynas â sefydlu'r Athrofa ac mae'r gyllideb hon yn parhau yn 2026-27.

*Gwybodaeth am gyllid a ddyrannwyd i wella'r gweithlu Cymraeg mewn addysg.*

Mae cyllid o fewn y BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon yn cefnogi'r broses o roi Cynllun 10 mlynedd y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ar waith, gyda chyfanswm cyllid o £8.72m ar gael yn 2026-27.

Bydd tua £3.8m yn ariannu mentrau a chymelliadau wedi'u targedau at gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, wedi'i flaenoriaethu ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- cynnal y rhaglen drochi o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- parhau i ddarparu'r grantiau meithrin gallu i alluogi ysgolion i ddatblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â phrinder athrawon;
- cyllid i gefnogi hyfywedd darpariaeth Safon Uwch Cymraeg mewn ysgolion a cholegau addysg bellach;
- pedwaredd flwyddyn y bwrsari cadw athrawon;
- cyllid ar gyfer CYDAG i gefnogi prosesau cydweithio a gweithio strategol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cyllid a ddyrennir i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bob ymarferydd addysg. Mae'r Ganolfan bellach yn ymgymryd â rôl gydgysylltiedig o ran cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y Gymraeg i'w darparu i'r gweithlu addysg. Yn seiliedig ar ymarfer cwmpasu llawn, gan gydweithio â phob awdurdod lleol i ddeall anghenion ar lefel leol, mae'r Ganolfan bellach wedi datblygu cynllun ar gyfer modelau cyflawni newydd, gan gynnwys cymorth mewn ysgolion, cyrsiau preswyl, cyrsiau ar-lein dan arweiniad tiwtor ac adnoddau dysgu proffesiynol. Caiff £1.1m ei ddyrannu o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2025-26 i gefnogi'r gwaith hwn.

Bydd y Ganolfan yn rheoli'r cyrsiau dwys sydd ar gael, ar amrywiaeth o lefelau ar gyfer cynorthwywyr addysgu ac athrawon, drwy'r Cynllun Sabothol ochr yn ochr â chyrsiau eraill sy'n cael eu datblygu ar gyfer y gweithlu addysg. Caiff tua £3.8m ei ddyrannu o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2026-27 i'r Cynllun Sabothol. Mae rhan sylweddol o'r gyllideb hon yn ariannu'r costau cyflenwi sy'n gysylltiedig â rhyddhau ymarferwyr o ysgolion i ymgymryd â'r cyrsiau, gyda thua £1.3m yn ariannu'r Ganolfan i gyflawni dysgu proffesiynol dwys mewn methodoleg addysgu iaith a'r Gymraeg ar gyfer ymarferwyr.

Caiff £5.9m pellach ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o elfen Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol ac uchelgeisiau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

## Academi Seren

*Manylion darpariaeth gyllidebol i gefnogi Academi Seren a'r Prosiect Ehangu Cyfranogiad.*

Mae gan Seren ddyraniad cyllideb o ychydig o dan £2.6m yn y BEL Polisi Addysg Drydyddol a Gweithredu yn 2026-27, gyda £1.2m wedi'i neilltuo i gefnogi'r model cyflawni newydd sydd â'r nod o ehangu cyfranogiad dysgwyr yn Academi Seren.

Bydd y tîm cyflawni newydd yn cydweithio ag ysgolion, colegau, dysgwyr a'u teuluoedd i ddeall eu hanghenion ynghylch cyfranogiad yn Academi Seren yn

well. Caiff ysgolion a cholegau becyn cymorth, a ddatblygir gydag ymarferwyr sy'n cynnwys dysgu proffesiynol, cyllid ac arweiniad.

## Addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant

*A yw'r cyllid yn y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i gefnogi cyfraddau ariannu addysg meithrin mewn lleoliadau nas cynhelir, a gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant, yn parhau yn 2026-27. Naratif ar unrhyw effaith ar nodau i sicrhau bod cyfraddau yn cyd-fynd â'r penderfyniad a wnaed ym mis Ebrill 2025 i godi'r gyfradd fesul awr ar gyfer darparwyr gofal plant sy'n darparu'r Cynnig Gofal Plant o £5.00 i £6.40 yr awr o'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu'r gyfradd hon bob blwyddyn o hyn ymlaen.)*

Bydd cyllid i gefnogi'r broses o sicrhau bod addysg feithrin a gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gael ei ddarparu yn 2026-27 drwy elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn parhau i gynrychioli cam sylweddol tuag at gynnal cynaliadwyedd darpariaeth y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Bydd y £8.9m ychwanegol a ddyrennir i'r elfen Safonau ysgolion yn 2026-27 yn cefnogi amrywiaeth o flaenoriaethau ac mae'n cynnwys cymorth ar gyfer dysgu sylfaen, ac athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau eraill. Mae'r cynnydd hwn yn cydnabod costau gweithredol cynyddol a'r angen i gefnogi'r sector i ddarparu addysg a gofal o ansawdd uchel.

Yng Nghyllideb Derfynol 2025-26, trosglwyddwyd £1.1m ychwanegol o'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r BEL Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) o 2025-26 i gefnogi elfen addysg feithrin y Cynnig Gofal Plant o ganlyniad i'r cynnydd yn y gyfradd fesul awr. Mae'r gyllideb ddrafft hon yn cynnwys trosglwyddiad cylchol arall o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o £0.449, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £1.549m i gefnogi'r cynnydd yn y gyfradd fesul awr o £5 i £6.40 o fis Ebrill 2025.

Mae'r ymrwymiad i adolygu'r gyfradd bob blwyddyn yn cynnig dull o ymateb yn barhaus i anghenion y sector ac amodau economaidd. Byddaf yn parhau i gydweithio ar draws portffolios er mwyn sicrhau cyllid cyson a theg ar gyfer addysg a gofal plant yng Nghymru.

*Manylion unrhyw gyllid arall o'r MEG Addysg i gefnogi darpariaeth addysg plentyndod cynnar / addysg feithrin y sector nas cynhelir a'r Cwricwlwm i Gymru, a sut mae hyn yn gysylltiedig â'r cyllid ar gyfer cyfrifoldebau'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.*

Er mwyn helpu i ddarparu addysg feithrin mewn lleoliadau gofal plant, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau ambarél gofal plant cenedlaethol – Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a Coram PACEY Cymru. Rydym yn cydnabod

pwysigrwydd y gwaith hwn ac mae cyllid cysylltiedig yn parhau gyda rhaglen gyllid tair blynedd, gwerth cyfanswm o £1.148m, yn creu rhan o raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru. Mae cyllid grant gwerth cyfanswm o £0.381m yn cael ei ddyrannu yn 2026-27 i gefnogi'r sefydliadau hyn. Mae'r grantiau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau ein bod yn parhau i ymgorffori arferion ac addysgeg dysgu sylfaenol er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

Yn fwy cyffredinol, mae consortiwm gofal plant Cwlwm sy'n cynnwys pum sefydliad ambarél gofal plant (gan gynnwys Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a Coram PACEY Cymru) yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o gyflawni ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu. Mae Cwlwm yn cael cyllid Gofal Plant a Chwarae sydd wedi'i gynnwys o fewn portffolio'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Mae Cwlwm yn cefnogi ac yn datblygu gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae o ansawdd uchel ac yn cefnogi'r broses o roi polisïau a mentrau allweddol ar waith o fewn y sector.

## Gwaith ieuenctid

*Manylion am y ffordd y mae’r MEG Addysg ar gyfer 2026-27 yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a’r ddarpariaeth gyllidebol i gyflawni ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â chryfhau gwasanaethau ieuenctid.*

Caiff cyfanswm o £15.077m ei gynnal yn 2026-27 i gefnogi gwasanaethau a gweithgareddau ieuenctid statudol a gwirfoddol er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu o ran cryfhau gwasanaethau ieuenctid. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys, yn amodol ar gytundeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, trosglwyddiad o £3.7m i gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal digartrefedd o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol, a gaiff ei roi ar waith mewn cyllideb atodol ar gyfer 2026-27.

Bydd hyn yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid, i sefydliadau gwirfoddol drwy'r Grant Cefnogi Sefydliadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol, ac yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau eraill er mwyn parhau â'n gwaith i ddatblygu argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim y bwriedir iddynt sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, a gweithredu ar yr argymhellion hynny.

Fel rhan o’r Grant Cymorth Ieuenctid, mae £2.5m wedi’i ddyrannu bob blwyddyn i’r awdurdodau lleol yn 2025-28 i wneud gwaith penodol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl ifanc. Bydd hyn yn cynyddu’r mynediad at ddarpariaeth sydd wedi’i thargedu at nodi a chefnogi’n gynnar y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ddatblygu materion iechyd neu lesiant meddwl/emosiynol, a’r rheini sydd

â materion o'r fath yn dod i'r amlwg, a chryfhau'r llwybrau atgyfeirio rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'i bartneriaid mewn lleoliadau addysg ffurfiol.

*Sut mae'r Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2026-27 yn adlewyrchu canfyddiadau a gwaith yr adolygiad o gyllid Gwaith Ieuenctid.*

Defnyddiodd yr adolygiad o gyllid Gwaith Ieuenctid sail dystiolaeth eang i asesu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwaith ieuenctid a sut y caiff ei ddyrannu. Mae rhai o argymhellion yr adolygiad eisoes wedi cael eu bwydo i mewn i'n gwaith, gan gynnwys camau a gymerir i symleiddio trefniadau ariannu ac annog prosesau cydweithio ar draws y sector. Bydd yr argymhellion yn parhau i gael eu bwydo i mewn i'n gwaith.

*Manylion y modd y mae'r MEG Addysg ar gyfer 2026-27 yn cefnogi'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru, gwaith y Bwrdd Gweithredu a gwaith i sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig: Corff cenedlaethol a fframwaith statudol ar gyfer gwaith ieuenctid (27 Mehefin 2025).*

Bydd cyllid o'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn parhau i gael ei ddyrannu i weithgareddau i gefnogi'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru a'n gwaith parhaus i ddatblygu argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Bydd gwaith yn dechrau, mewn partneriaeth â'r sector a rhanddeiliaid eraill – gan gynnwys pobl ifanc – i roi cyngor ar y broses o sefydlu'r corff hwn, gan gynnwys ei rôl a'i gylch gwaith. Bydd y gwaith hwn yn ei gam datblygu yn ystod 2026-27 a bydd yn helpu i lywio cyllid y tu hwnt i'r cyfnod hwn mewn perthynas â sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid.

## Dysgu ar gyfer troseddwyr

*Gwybodaeth am y ddarpariaeth gyllidebol yn 2026-27 ac unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff ei gwario o gymharu â blynyddoedd blaenorol.*

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu (o arian a ddarperir gan Lywodraeth y DU i Weinidogion Cymru yn benodol at y diben hen) y ddarpariaeth dysgu a sgiliau a llyfrgelloedd mewn carchardai yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2027.

Mae'r gyllideb yn £7.328m o hyd yn 2026-27, a disgwylir i £3.738m ychwanegol gael ei drosglwyddo ar gyfer CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc fel rhan o gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn, sy'n gyson â chyllid ar gyfer 2025-26. O'r cyllid hwn:

- mae £3.328m yn cwmpasu costau'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau yng ngharchardai sector cyhoeddus de Cymru (CEF Brynbuga/Prescoed, Caerdydd ac Abertawe);
- mae £4m yn cwmpasu costau'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau yn CEF Berwyn yng ngogledd Cymru;
- dyrennir £3.738m tuag at y ddarpariaeth dysgu a sgiliau yn CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc yn ne Cymru.

## Cyllid ar gyfer Medr

*Cyfanswm y cyllid ar gyfer Medr yn 2026-27 a disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sut y bydd Medr yn dyrannu hyn (rhestrir pwyntiau manylach isod)*

Caiff cyllideb Medr (o fewn y MEG Addysg) ei gynyddu £23.58m (2.88%) pan gaiff ei chymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, i £843.037m yn 2026-27 i ariannu:

- costau ychwanegol ADY mewn colegau addysg bellach (£4.1m);
- cyflog cyfartal parhaus mewn colegau addysg bellach a chweched dosbarth (£14.1m);
- costau lleoliadau AGA mewn addysg uwch (£2.5m);
- cynnydd i'r gronfa ariannol wrth gefn mewn addysg bellach (£0.4m);
- ehangu'r rhaglen Prentisiaethau Iau ymhellach (£0.4m).

Wedi'i gynnwys yn y ffigurau uchod y mae trosglwyddiad o £2.04m o'r BEL Estyn i gydnabod y ffaith bod Medr wedi dechrau ar ei gyfrifoldebau i ariannu Estyn ar gyfer arolygiadau addysg a hyfforddiant ôl-16 o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022.

O ystyried mai Corff Hyd Braich yw Medr, mae angen craffu ar wahân ar ei benderfyniadau cyllido. Bydd Medr yn nodi ei ddyraniadau cyllid dangosol dros y misoedd nesaf a bydd modd i'r Pwyllgor graffu arno mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny.

Bydd Gweinidogion yn clustnodi cyfanswm o £1m o gyllideb Medr ar gyfer y rhaglen Prentisiaethau Iau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, cynnydd pellach o £0.4m o 2026-27, i adlewyrchu'r ffaith bod y rhaglen hon y tu hwnt i gyfrifoldebau statudol craidd Medr.

## Addysg bellach, chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned

*Faint o gyfanswm dyraniad Medr yn 2026-27 a fwriedir ar gyfer chweched dosbarth a cholegau addysg bellach, ac unrhyw ddefnyddiau penodol o'r cyllid hwn.*

*Manylion cyllid 2025-26 a ddyrennir i Medr ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth unigol (neu awdurdodau lleol) a cholegau, a'r hyn y bydd y cyllid hwn yn ei gefnogi.*

*Manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo i sefydliadau addysg bellach neu Chweched Dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.*

*Y dyraniad ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned.*

*Gwerthoedd cyfan rhaglenni 2024-25 a 2025-26 a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyllid addysg bellach a chweched dosbarth.*

Bydd manylion cyllideb Addysg Medr yn ei gwneud yn ofynnol i'w benderfyniadau cyllido fod yn destun proses graffu ar wahân. Bydd Medr yn nodi ei ddyraniadau cyllid dangosol dros y misoedd nesaf a bydd modd i'r Pwyllgor graffu arno mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny.

Fel y nodwyd uchod, rydym wedi gofyn i Medr gyllidebu i sicrhau cyflog cyfartal parhaus mewn addysg ôl-16 rhwng ysgolion a cholegau. Rydym yn disgwyl i Medr gynllunio ar gyfer costau disgwyliedig setliad cyflogau'r flwyddyn nesaf yn y sector Addysg Bellach ac ysgolion o fewn y cynnydd a ddarparwyd.

Mae dosbarthiad cyllid cyffredinol Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, gan gynnwys dyraniadau sefydliadol unigol ar gyfer yr holl gyllid craidd ar gyfer addysg drydyddol, ar gael ar wefan Medr. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth awdurdodau lleol a darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a dyraniadau ar gyfer sefydliadau AB. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys manylion gwerthoedd rhaglenni ar gyfartaledd.

*Manylion y modd y mae cynnydd mewn cymorth ariannol wedi effeithio ar y gyllideb ddrafft (yn benodol y cynnydd yn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r trothwyon uwch ar gyfer cymhwysedd ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg)*

Cyhoeddwyd yr adolygiad annibynnol o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ym mis Gorffennaf 2024, gan arwain at gynnydd mewn trothwyon cymhwysedd incwm aelwydydd i gyd-fynd â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn cymhwysedd. Mae'r targed cysylltiedig o 3,500 o geisiadau ychwanegol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 yn cael ei olrhain gan swyddogion. Y gyfradd gyllid sydd ar gael yw £40 yr wythnos o hyd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae adolygiad annibynnol o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo, a disgwylir y bydd adroddiad drafft ar gael ym mis Rhagfyr 2025, i'w gyhoeddi ym mis Chwefror 2026.

Cynyddodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Addysg Uwch y gyfradd grant ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 i uchafswm o £1,919 ar gyfer astudiaethau amser llawn a £959 ar gyfer astudiaethau rhan-amser mewn ymateb i argymhellion

Pwyllgor Cyllid y Senedd cyn yr adolygiad. Caiff argymhellion o'r adolygiad eu hystyried cyn blwyddyn academaidd 2026/27.

## Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ac ôl-16

*Faint o gyfanswm dyraniad Medr yn 2026-27 a fwriedir ar gyfer addysg uwch, ac unrhyw ddefnyddiau penodol o'r cyllid hwn*

*Manylion y modd y mae'r gyllideb ddrafft yn cefnogi ac yn adlewyrchu sefyllfaoedd ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru*

*Manylion am b'un a yw penderfyniadau i godi'r terfyn ffioedd dysgu ar gyfer astudiaethau i israddedigion wedi dylanwadu ar ddyraniadau i Medr*

Fel y nodwyd, bydd Medr yn nodi ei ddyraniadau cyllid dangosol dros y misoedd nesaf a bydd modd i'r Pwyllgor graffu arno mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny.

Rydym yn cydnabod bod prifysgolion yn parhau i wynebu sefyllfa ariannol eithriadol o heriol, o ganlyniad i leihad yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu recriwtio, costau cynyddol oherwydd pwysau chwyddiannol a'r cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, ynghyd ag effaith barhaus Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a chystadleuaeth gynyddol ar gyfer myfyrwyr domestig.

Drwy ymgysylltu ag is-gangellorion prifysgolion, rydym wedi ceisio gwrando ar bryderon am gostau cynyddol a heriau parhaus ac rydym wedi llwyddo i ddarparu cyllid ychwanegol yn 2026-27 yn benodol i gefnogi prifysgolion â chostau darparu addysg gychwynnol i athrawon. Dylai'r cyllid ychwanegol hwn gefnogi prifysgolion gyda'r costau hyn a gwella'r cyflenwad hanfodol hwn o sgiliau.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn cynyddu terfynau'r ffioedd dysgu y bydd yn bosibl eu codi yn Lloegr yn 2026/27. Cynyddodd Llywodraeth Cymru derfyn y ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr israddedig llawnamser yn 2024/25 ac eto yn 2025/26 i gyd-fynd â'r rhai yn Lloegr. Byddwn yn cynyddu'r terfyn ffioedd dysgu unwaith eto yng Nghymru i gyd-fynd â'r rhai yn Lloegr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Bydd hyn yn berthnasol i unrhyw fyfyriwr cymwys sy'n astudio yng Nghymru, nid i fyfyrwyr o Gymru yn unig. Bydd y benthyciad ffioedd dysgu fydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru yn cynyddu'n unol â hyn. Cyhoeddir union swm y terfyn ffioedd dysgu wedi'i gynyddu ar wahân pan ddaw eglurder ar y sefyllfa yn Lloegr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn talu cost lawn ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig cymwys o Gymru mewn sefydliadau rheoledig p'un a fyddant yn dewis astudio yng Nghymru neu rywle arall yn y DU. Mae hyn yn parhau i fod yn bolisi hirsefydlog

lle nad oes rhaid i unrhyw fyfyrwyr o Gymru dalu costau eu ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig amser llawn ymlaen llaw.

Byddwn hefyd yn cynyddu o £250 uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu rhan-amser fydd ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, er mwyn sicrhau bod astudio rhan-amser yn parhau i fod yn opsiwn hygyrch ac yn gynaliadwy.

***Manylion am y modd y mae cynnydd mewn cymorth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser ac amser llawn cymwys yng Nghymru, ynghyd â chymorth i fyfyrwyr sy'n astudio graddau meistr a doethuriaeth ôl-raddedig wedi dylanwadu ar y gyllideb ddrafft***

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi'r pecyn mwyaf hael o gymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr gwledydd y DU. Cyllidebwyd £269.2m o fewn y MEG Addysg ar gyfer grantiau myfyrwyr, sy'n adlewyrchu gostyngiadau a ragfynegir mewn gwariant ar grantiau. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi gallu ailddyrannu cyllid o fewn y MEG i gefnogi blaenoriaethau. Caiff manylion llawn unrhyw newidiadau i gymorth myfyrwyr eu cyhoeddi ar wahân.

***Manylion unrhyw ddyraniad yn 2026-27 ar gyfer darparu prentisiaethau gradd os bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu addysgu prentisiaid presennol ar ôl i'r cwrs ddod i ben.***

Rydym yn rhagweld y bydd Medr yn cynnal cyllid ar gyfer prentisiaethau gradd ar yr un lefel â'r flwyddyn hon, sef £9.411m. Rhagwelir y bydd Medr yn parhau i gynnig dyraniad o'r cyllid a gaiff o'r gyllideb Addysg a'r gyllideb Prentisiaeth (MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio) i gefnogi prentisiaethau ar lefel gradd. Bydd Medr yn rhoi manylion llawn cyllid prentisiaethau i'r Pwyllgor.

***Manylion unrhyw gyllid cyfalaf i'w ddarparu i Medr, gan gynnwys unrhyw amodau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gosod arno.***

Byddwn yn parhau i ddarparu £13m i Medr o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Seilwaith Addysg er mwyn ariannu ymrwymiadau cyfalaf yn y sector Addysg Uwch a'r sector Addysg Bellach. Mae darparwyr Addysg Bellach hefyd yn parhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer raglenni cyfalaf mawr.

***Manylion unrhyw gronfeydd hapddigwyddiadau / wrth gefn / heb eu neilltuo o fewn unrhyw un o Linellau Gwariant yn y Gyllideb 2026-27 sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol, gan gynnwys y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn Camau Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16; manylion sut y caiff y cronfeydd eu defnyddio neu sut y gellir eu defnyddio; a manylion unrhyw ddefnydd a wnaed ohonynt yn ystod 2025-2026.***

Rydym wedi cynyddu'r gyllideb ar gyfer gweinyddu lleferydd, iaith a chyfathrebu £5.5m, i £23.65m, er mwyn adlewyrchu costau sefydledig i Lywodraeth Cymru fel

un o randdeiliaid lleferydd, iaith a chyfathrebu yn fwy cywir. Mae'r costau hyn wedi'u talu yn hanesyddol yn sgil tanwariant yn y gyllideb grantiau myfyrwyr. Mae costau gwirioneddol gweinyddu lleferydd, iaith a chyfathrebu yn amrywio o un flwyddyn i'r llall a chytunir arnynt gan y pedair llywodraeth sy'n rhanddeiliaid mewn Cytundeb Blaenoriaethau ac Adnoddau Blynyddol.

## Darpariaeth addysg ôl-16 arall

*Gwybodaeth am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch y modd y bydd Medr yn defnyddio ei ddyraniad cyfan i ariannu darpariaeth addysg ôl-16 arall*

Fel y nodwyd uchod, bydd Medr yn nodi ei ddyraniadau cyllid dangosol dros y misoedd nesaf a bydd modd i'r Pwyllgor graffu arno mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny.

*Manylion cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (Taith) gan gynnwys ei hehangu i fis Mawrth 2028.*

Cynhelir cyllideb y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ar gyfer 2026-27 ar yr un lefel â 2025-26. Mae'r cynnydd yn y BEL Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn gyfan gwbl o ganlyniad i'r cyllid o £0.160m a drosglwyddwyd o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon ar gyfer prosiect Gwersi o Auschwitz, gan gynyddu cyfanswm y gyllideb £6.662m.

Cyhoeddwyd estyniad o flwyddyn i Taith ym mis Mehefin 2025. Mae hyn yn ymestyn yr ymrwymiad ariannol i gyflawni rhaglen Taith i 2027-28. Caiff y rhaglen ei hasesu'n rheolaidd o ran gwerth am arian, cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd.

*Manylion y gyllideb a ddarperir ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, naill ai gan y MEG Addysg neu BEL y Gymraeg o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.*

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £10.382m a ddyrennir i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2026-27. Mae'r gyllideb hon bellach yn rhan o gylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac mae cyllid wedi'i nodi yn BEL y Gymraeg o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

## Y Warant i Bobl Ifanc

*Manylion y ddarpariaeth gyllidebol o'r MEG Addysg sy'n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a sut mae'n ymwneud â chyllid o MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio*

Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn darparu strwythur ambarél y mae'r holl raglenni i bobl ifanc a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn dod oddi tano, gyda'r nod o greu taith gymorth syml i bobl ifanc, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau a'u cefndir.

Mae cyllid i gyfrannu at gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc yn gyffredinol ar draws y MEG Addysg a MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, gan gynnwys y gyllideb

sylweddol a ddyrannwyd i Medr. Dylid hefyd nodi bod rhai rhaglenni yn seiliedig ar alw a'u bod ar gael i bobl o bob oed a bod rhai yn cael eu hariannu dros flynyddoedd academaidd yn hytrach na blynyddoedd ariannol.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

*Gwybodaeth am y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yn hyn o dan Fand B.*

Mae cyllideb cyfalaf cyffredinol y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (heblaw Trafodiadau Ariannol) ar gyfer 2026-27 yn dod i gyfanswm o £378m, cynnydd o £7.1m (2%) o gymharu â 2025-26. Mae hyn yn ychwanegol i gyfanswm buddsoddiad y rhaglen o fwy na £3.7bn a fuddsoddwyd hyd yma ers 2014, sy'n cynnwys cyfraniadau'r partneriaid cyflawni.

Dyrennir y gyllideb rhwng meysydd blaenoriaeth megis: ADY, Ysgolion Bro ac Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cyfalaf, ynghyd â'r dyfarniadau grant amlflwydd ar gyfer y Rhaglen Dreigl, Gofal Plant a'r Gymraeg. Roedd Rhaglen Band B yn cynnwys 126 o brosiectau adnewyddu mawr ac adeiladau newydd ledled Cymru. Mae'r prosiectau a gymeradwywyd ar hyn o bryd yn dod i gyfanswm buddsoddiad cyffredinol a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru o £1.27bn, gyda 36 o brosiectau yn mynd rhagddynt a 90 wedi'u cwblhau.

*Rhagamcaniad o ba bryd y mae Band B yn debygol o gael ei chwblhau a'r wybodaeth ddiweddaraf am gam nesaf y rhaglen sy'n cynnwys cynlluniau buddsoddi naw mlynedd awdurdodau lleol.*

Rhoddodd rhaglen Band B y gorau i gymryd ceisiadau am gyllid o 31 Mawrth 2024. Mae unrhyw brosiectau o 1 Ebrill 2024 wedi'u cynnwys yng Nghynlluniau Amlinellol Strategol Rhaglen Dreigl y partneriaid cyflawni. Mae taliadau terfynol a gynlluniwyd mewn perthynas ag ymrwymiadau Band B presennol yn cael eu hymestyn i flwyddyn ariannol 2028-29.

Cytunwyd ar Gynlluniau Amlinellol Strategol mewn egwyddor ar gyfer pob un o raglenni treigl y partneriaid cyflawni. Bydd y rhaglenni gwaith uchelgeisiol hyn yn hwyluso 329 o brosiectau adnewyddu mawr ac adeiladau newydd, gyda gofyniad buddsoddiad cyffredinol o £5.545bn gan gynnwys cyfraniadau'r partneriaid cyflawni.

*Asesiad wedi'i ddiweddaru o oblygiadau costau byw, er enghraifft prisiau ynni ac adeiladu, ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan gynnwys unrhyw effaith ar gynnydd a chostau prosiectau.*

Bydd y cynnydd yng nghyllideb y Rhaglen yn lliniaru effaith chwyddiant i raddau, gan ei gwneud yn bosibl i brosiectau sy'n mynd rhagddynt barhau i wneud

cynnydd. Fodd bynnag, mae effeithiau tymor canolig a hirdymor chwyddiant wedi llesteirio'r uchelgais i gyflymu'r broses o adeiladu ysgolion a cholegau newydd. Wrth i chwyddiant barhau'n gymharol uchel, mae costau adeiladu uwch yn golygu bod yr ystad addysg yng Nghymru yn adeiladu ac yn adnewyddu llai o ysgolion a cholegau am yr un lefel o gyllid. Mae'r partneriaid cyflawni yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn eu Cynlluniau Amlinellol Strategol Rhaglen Dreigl naw mlynedd, er y bydd hyn yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael iddynt dros y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Rhaglen yn darparu amgylcheddau dysgu carbon sero net modern sy'n addas at y diben sy'n fwy effeithlon o ran ynni na'r cyfleusterau y maent wedi'u disodli. Mae hyn yn helpu ysgolion a cholegau gyda'u costau ynni yn ogystal â lleihau allyriadau carbon.

Er mwyn cefnogi'r ystad addysg ehangach yng Nghymru, cwblhawyd Arolwg Carbon a Chyflwr Adeiladau Elfennol arloesol o bob ysgol a choleg. Mae hyn yn rhoi Map Trywydd Carbon Sero Net i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ar gyfer pob adeilad ysgol a choleg. Bwriedir i'r broses o roi'r Map Trywydd ar waith gael ei hintegreiddio yn rhaglenni cadw a chynnal asedau cyfalaf ysgolion a cholegau. Dros amser, bydd hyn yn cyfrannu at adeiladau mwy thermol-effeithlon sy'n defnyddio llai o ynni, gan leihau costau cyfleustodau i ysgolion a cholegau.

*Goblygiadau ariannol polisïau carbon sero net Llywodraeth Cymru a'u heffaith ar y MEG Addysg yn 2026-27.*

Ers mis Ionawr 2022, mae'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi mandadu safonau carbon sero net ar gyfer pob prosiect adeiladau newydd, estyniadau a gwaith adnewyddu mawr. Roedd y mandad hefyd yn cynnwys targedau i leihau carbon ymgorfforedig a gaiff ei greu drwy weithgynhyrchu, cludo deunyddiau a'r broses adeiladu. Mae'r cam dewr hwn wedi sicrhau bod Ystad Addysg Cymru yn rhan ganolog o'r Sector Addysg yn y DU o ran datgarboneiddio ysgolion a cholegau.

Ar adeg rhoi hyn ar waith, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gefnogi 100% o'r gost ychwanegol (uwchlaw llinell sylfaen sgôr Rhagorol BREEAM) i gyflawni ein hymrwymiad carbon sero net. Mae'r gost gyfalaf ychwanegol ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwn yn tua 12.5% o werth y prosiect, tua £32.6m yn 2026-27.

***Darpariaeth o fewn y MEG Addysg – ac esboniad o b'un a yw'n gyfalaf neu'n refeniw – ar gyfer gwaith adnewyddu a chynnal a chadw mewn ysgolion a cholegau, yn 2025-26 a 2026-27, a chadarnhad o b'un a yw hyn yn rhan o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.***

Mae gan y Grant Adnewyddu a Chynnal a Chadw Cyfalaf ar gyfer 2025-26 gyllideb mewn egwyddor o £50m i gefnogi gwaith cynnal a chadw mewn ysgolion a cholegau, y rhyddhawyd £24m ohono i ysgolion a £6m i golegau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i gwmpasu gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd. Os bydd cyllidebau'n caniatáu, bydd y £16m sy'n weddill ar gael i ysgolion a £4m i golegau yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol. Nid oes unrhyw ddyraniadau refeniw ar gyfer gwaith adnewyddu a chynnal a chadw wedi'u gwneud ar gyfer 2025-26 nac wedi'u cynllunio ar gyfer 2026-27.

Er nad yw cyllideb y Rhaglen ar gyfer 2026-27 wedi'i dyrannu'n ffurfiol eto, mae Adnewyddu a Chynnal a Chadw Cyfalaf yn faes y byddwn yn parhau i'w gefnogi yn 2026-27. Gwyddom fod hwn yn dal i fod yn faes lle ceir pwysau gan bartneriaid cyflawni ac yn ffrwd gyllido allweddol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn yr ystad ysgolion a cholegau.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant

*Cadarnhau statws y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, y disgwyliwyd iddi ddod i ben yng ngwanwyn 2025 yn wreiddiol ond a gafodd gyllid ychwanegol yn 2025-26, a ph'un a oes unrhyw ddyraniadau i ymestyn hyn i 2026-27.*

Dyrannwyd cyllideb o £25m i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar tair blynedd (2025-2028) gwerth £75m ar gyfer 2025-26, gyda chyllid yn cael ei ddyrannu o'r MEG Addysg. Bydd y rhaglen y parhau i gefnogi grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr. O'r £25m, dyrannwyd £10m yn 2025-26 ar gyfer cyllid cyfalaf bach ar gyfer lleoliadau gofal plant sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, a weinyddir gan awdurdodau lleol, ac mae £15m ar gael i awdurdodau lleol wneud cais am gyllid cyfalaf mawr i adeiladu lleoliadau gofal plant newydd neu wneud gwaith adnewyddu sylweddol i rai sy'n bodoli eisoes.

Nodau'r Rhaglen yw gwella ac ehangu darpariaeth gofal plant newydd a phresennol, gyda phwyslais penodol ar atgyfnerthu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cydleoli gwasanaethau, ehangu lleoedd gofal plant ac ehangu Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant Cymru a Dysgu Sylfaen mewn rhaglenni lleoliadau gofal plant a ariennir.

Bwriedir i £25m gael ei ddyrannu o'r rhaglen yn 2026-27, gan gynnal yr un rhaniad rhwng y ffrydiau grantiau bach a ffrydiau cyllid cyfalaf mawr â'r hyn a welwyd yn y flwyddyn ariannol bresennol, yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael.

*Gwybodaeth am gyllid cyfalaf o’r MEG Addysg ar gyfer y rhaglen Cynnig Gofal Plant a Dechrau’n Deg ac unrhyw ddyraniadau at ddibenion yr ymrwymiad i gyflwyno gofal plant Dechrau’n Deg i bob plentyn dyflwydd oed.*

Yn ystod 2022-25, dyfarnodd y Rhaglen Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar gyfanswm o £26.7m i gefnogi 53 o brosiectau gofal plant cyfalaf mawr. O hyn, cafodd £26m ei ddyfarnu i awdurdodau lleol i gefnogi 51 o ddarpariaethau Dechrau'n Deg, yr oedd 49 ohonynt hefyd yn darparu'r Cynnig Gofal Plant. Roedd y cyllid hwn yn cefnogi amrywiaeth o waith gan gynnwys gwaith adnewyddu, estyniadau a datblygu lleoliadau gofal plant ar wahân newydd.

Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025-28 yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen flaenorol. Yn ystod 2025-26, mae'r tîm cyfalaf wedi comisiynu ymchwil i asesu effaith y rhaglen gyfalaf a phenderfynu a yw'r cyllid sydd ar gael yn cyrraedd y meysydd priodol yn y sector.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion Bro

***Gwybodaeth am drefniadau ar gyfer cyllid sydd â'r nod o gynyddu natur ystadau addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac addasu safleoedd i gael eu defnyddio gan y gymuned.***

Gan adeiladu ar y cyllid o £74m ar gyfer Ysgolion Bro ers 2022-23, mae 84 o brosiectau sy'n cefnogi gwaith amlasiantaethol a gwaith ymgysylltu, fel y nodir yn y canllawiau *Datblygu trefniadau ymgysylltu amlasiantaethol mewn Ysgolion Bro*, wedi cael cymorth cyllid cyfalaf yn 2025-26. Bydd cyllid o £20m yn parhau i mewn i 2026-27 er mwyn cefnogi'r broses o greu mannau i roi cefnogaeth amlasiantaethol ac ymgysylltu â dysgwyr, yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael.

# 3. Crynodeb

Cyflwynir Cyllideb Ddrafft y MEG Addysg ar gyfer 2026-27 i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Lynne Neagle AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Vikki Howells AS

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

# 4. Atodiadau

## Atodiad A – Dadansoddiad o'r MEG Addysg yn ôl Camau Gweithredu a BEL ar gyfer 2024-25, 2025-26 a 2026-27

Adnodd

| | | 2024-25 | 2025-26 | | | 2026-27 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Chwefror 2025) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2025) | Alldro a Ragwelir (Cyfnod 5) | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Newidiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Trosglwyddiadau o MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn MEG | Cyllid Cylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Cyllid Anghylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) |
| | | £000s | | | | | | | | | | | | |
| Cwricwlwm | Cwricwlwm ac Asesu | 15,657 | 23,752 | 25,051 | 26,924 | 23,752 | 29 | 23,781 | 0 | 943 | 2,033 | 0 | 0 | 26,757 |
| Cyfanswm Cwricwlwm | | 15,657 | 23,752 | 25,051 | 26,924 | 23,752 | 29 | 23,781 | 0 | 943 | 2,033 | 0 | 0 | 26,757 |
| Addysgu ac Arweinyddiaeth | Datblygu a Chymorth Athrawon | 46,532 | 34,234 | 34,264 | 45,478 | 34,234 | 91 | 34,325 | -80 | -160 | 131 | 0 | 0 | 34,216 |
| | Datblygu a Chymorth Athrawon – Heb fod yn Arian Parod | 539 | 681 | 681 | 681 | 681 | 0 | 681 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 681 |
| Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth | | 47,071 | 34,915 | 34,945 | 46,159 | 34,915 | 91 | 35,006 | -80 | -160 | 131 | 0 | 0 | 34,897 |
| Cymorth ALl Addysg Cyn-16 | Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 68,956 | 67,261 | 67,261 | 67,258 | 67,261 | 0 | 67,261 | 0 | 0 | 5,000 | 0 | 0 | 72,261 |
| | Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 199,886 | 168,789 | 169,238 | 169,236 | 168,789 | 0 | 168,789 | 449 | 0 | 8,885 | 0 | 0 | 178,123 |
| | Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 152,059 | 156,250 | 156,250 | 156,259 | 156,250 | 0 | 156,250 | 0 | 0 | 2,500 | 0 | 0 | 158,750 |
| | Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 9,882 | 8,773 | 8,773 | 9,475 | 8,773 | 0 | 8,773 | 0 | 0 | 700 | 0 | 0 | 9,473 |

| | | 2024-25 | 2025-26 | | | 2026-27 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Chwefror 2025) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2025) | Alldro a Ragwelir (Cyfnod 5) | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Newidiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Trosglwyddiadau o MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn MEG | Cyllid Cylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Cyllid Anghylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) |
| | | £000s | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Cymorth ALI Addysg Cyn-16 | | 430,783 | 401,073 | 401,522 | 402,228 | 401,073 | 0 | 401,073 | 449 | 0 | 17,085 | 0 | 0 | 418,607 |
| Cymwysterau | Cymwysterau Cymru | 9,794 | 10,391 | 10,500 | 10,560 | 10,391 | 170 | 10,561 | 0 | 0 | 183 | 0 | 0 | 10,744 |
| | Cymwysterau Cymru – Heb fod yn Arian Parod | 374 | 345 | 345 | 345 | 345 | 0 | 345 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 345 |
| Cyfanswm Cymwysterau | | 10,168 | 10,736 | 10,845 | 10,905 | 10,736 | 170 | 10,906 | 0 | 0 | 183 | 0 | 0 | 11,089 |
| Addysg Drydyddol | Darpariaeth Ôl-16 (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) | 186,137 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu | 6,636 | 6,501 | 6,662 | 6,662 | 6,501 | 1 | 6,502 | 0 | 160 | 0 | 0 | 0 | 6,662 |
| | Polisi Addysg Drydyddol a Gweithredu | 1,283 | 3,637 | 3,848 | 4,051 | 3,637 | 15 | 3,652 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,652 |
| | Medr – Gwariant ar Raglenni | 551,404 | 804,681 | 815,342 | 818,735 | 804,681 | 14,776 | 819,457 | 0 | 10,554 | 13,026 | 0 | 0 | 843,037 |
| | Medr – Gwariant ar Raglenni – Heb fod yn Arian Parod | 0 | 437 | 437 | 437 | 437 | 0 | 437 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 437 |
| Cyfanswm Addysg Drydyddol | | 745,460 | 815,256 | 826,289 | 829,885 | 815,256 | 14,792 | 830,048 | 0 | 10,714 | 13,026 | 0 | 0 | 853,788 |
| Addysg Uwch | CCAUC – Gwariant ar Raglenni (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) | 60,755 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | CCAUC – Gwariant ar Raglenni – Heb fod yn Arian Parod | 265 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Tudalen y pecyn 80

Tudalen y pecyn 81

| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2024-25 Alldro Terfynol | 2025-26 Cyllideb Derfynol (Chwefror 2025) | 2025-26 Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2025) | 2025-26 Alldro a Ragwelir (Cyfnod 5) | 2026-27 Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | 2026-27 Newidiadau i'r Llinell Sylfaen | 2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | 2026-27 Trosglwyddiadau o MEG i MEG | 2026-27 Trosglwyddiadau o fewn MEG | 2026-27 Cyllid Cylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | 2026-27 Cyllid Anghylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | 2026-27 Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | 2026-27 Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000s | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Addysg Uwch | | 61,020 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Safonau Addysg | Y Grant Gwella Ysgolion | 918 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Codi Safonau Ysgolion | -45 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cymorth Safonau Ysgolion | 2,575 | 3,143 | 4,651 | 5,235 | 3,143 | 38 | 3,181 | 0 | 1,483 | 300 | 0 | 0 | 4,964 |
| Cyfanswm Safonau Addysg | | 3,448 | 3,143 | 4,651 | 5,235 | 3,143 | 38 | 3,181 | 0 | 1,483 | 300 | 0 | 0 | 4,964 |
| Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad | Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad | 15,372 | 13,891 | 13,897 | 14,145 | 13,891 | 9 | 13,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13,900 |
| Cyfanswm Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad | | 15,372 | 13,891 | 13,897 | 14,145 | 13,891 | 9 | 13,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13,900 |
| Systemau TGCh a Rheoli Gwybodaeth | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 4,501 | 5,599 | 5,632 | 6,653 | 5,599 | 49 | 5,648 | 0 | 0 | 351 | 0 | 0 | 5,999 |
| | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg – Heb fod yn Arian Parod | 2,487 | 4,730 | 0 | 0 | 4,730 | 0 | 4,730 | 0 | -4,730 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Systemau TGCh a Rheoli Gwybodaeth | | 6,988 | 10,329 | 5,632 | 6,653 | 10,329 | 49 | 10,378 | 0 | -4,730 | 351 | 0 | 0 | 5,999 |
| Llesiant plant a phobl ifanc | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 7,340 | 5,597 | 4,477 | 4,477 | 5,597 | 9 | 5,606 | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 | 5,615 |
| | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 89,048 | 102,415 | 102,415 | 102,389 | 102,415 | 0 | 102,415 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 102,415 |
| | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 17,730 | 19,885 | 19,890 | 21,890 | 19,885 | -3,665 | 16,220 | 0 | 0 | 3,000 | 697 | 0 | 19,917 |
| | Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | 1,699 | 1,856 | 1,769 | 1,769 | 1,856 | 11 | 1,867 | 0 | 0 | 670 | 0 | 0 | 2,537 |
| | Grwpiau Agored i Niwed | 1,550 | 923 | 925 | 980 | 923 | 3 | 926 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 926 |
| Cyfanswm Llesiant plant a phobl ifanc | | 117,367 | 130,676 | 129,476 | 131,505 | 130,676 | -3,642 | 127,034 | 0 | 9 | 3,670 | 697 | 0 | 131,410 |
| Cymorth dysgwyr Ôl-16 | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 282,280 | 283,262 | 283,262 | 273,874 | 283,262 | 0 | 283,262 | 0 | -14,014 | 0 | 0 | 0 | 269,248 |

Tudalen y pecyn 82

| | | 2024-25 | 2025-26 | | | 2026-27 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Chwefror 2025) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2025) | Alldro a Ragwelir (Cyfnod 5) | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Newidiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Trosglwyddiadau o MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn MEG | Cyllid Cylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Cyllid Anghylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) |
| | | £000s | | | | | | | | | | | | |
| | Gweinyddu Cymorth i Fyfyrwyr | 21,934 | 18,147 | 18,147 | 23,857 | 18,147 | 0 | 18,147 | 0 | 5,500 | 0 | 0 | 0 | 23,647 |
| | Darpariaeth Gyllidebol Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrwyr – Heb fod yn Arian Parod | 259,031 | 261,125 | 261,125 | 261,125 | 261,125 | 0 | 261,125 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 261,125 |
| Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16 | | 563,245 | 562,534 | 562,534 | 558,856 | 562,534 | 0 | 562,534 | 0 | -8,514 | 0 | 0 | 0 | 554,020 |
| Ymgysylltu â Disgyblion | Trechu Dadrithiad | 700 | 3,708 | 3,701 | 3,168 | 3,708 | 3 | 3,711 | 0 | -9 | 0 | 0 | 0 | 3,702 |
| | Ysgolion Bro | 230 | 376 | 377 | 276 | 376 | 2 | 378 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 378 |
| Cyfanswm Ymgysylltu â Disgyblion | | 930 | 4,084 | 4,078 | 3,444 | 4,084 | 5 | 4,089 | 0 | -9 | 0 | 0 | 0 | 4,080 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth | Dysgu ar gyfer Troseddwyr | 11,041 | 7,328 | 11,066 | 11,066 | 7,328 | 0 | 7,328 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7,328 |
| | Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth | 13,749 | 11,377 | 15,079 | 15,043 | 11,377 | 3 | 11,380 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11,380 |
| Cyfanswm Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth | | 24,790 | 18,705 | 26,145 | 26,109 | 18,705 | 3 | 18,708 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 18,708 |
| Cymorth Cyflawni | Cyfathrebu ym maes Addysg | -493 | 413 | 414 | 311 | 413 | 2 | 415 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 415 |
| | Rhaglen Addysg Ryngwladol | 524 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Darparu Cymorth | | 31 | 413 | 414 | 311 | 413 | 2 | 415 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 415 |
| Cymraeg mewn Addysg | Cymraeg mewn Addysg | 7,247 | 6,417 | 3,991 | 3,991 | 6,417 | 0 | 6,417 | 0 | -2,426 | 0 | 0 | 0 | 3,991 |
| | Cymraeg mewn Addysg – Heb fod yn Arian Parod | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg | | 7,251 | 6,417 | 3,991 | 3,991 | 6,417 | 0 | 6,417 | 0 | -2,426 | 0 | 0 | 0 | 3,991 |
| Ystadau a Darpariaethau TG | Seilwaith Addysg | 9,379 | 15,761 | 15,764 | 15,402 | 15,761 | 5 | 15,766 | 0 | 0 | 9 | 0 | 0 | 15,775 |
| | Seilwaith Addysg – Heb | 571 | 0 | 4,730 | 2,853 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4,730 | 0 | 0 | 0 | 4,730 |

| | | 2024-25 | 2025-26 | | | 2026-27 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Chwefror 2025) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2025) | Alldro a Ragwelir (Cyfnod 5) | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Newidiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Trosglwyddiadau o MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn MEG | Cyllid Cylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Cyllid Anghylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) |
| | | £000s | | | | | | | | | | | | |
| | fod yn Arian Parod | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG | | 9,950 | 15,761 | 20,494 | 18,255 | 15,761 | 5 | 15,766 | 0 | 4,730 | 9 | 0 | 0 | 20,505 |
| Estyn | Estyn – Gwariant ar Raglenni | 16,380 | 16,487 | 16,702 | 17,562 | 16,487 | 319 | 16,806 | 0 | -2,040 | 1,326 | 0 | 0 | 16,092 |
| | Estyn – Gwariant ar Raglenni – Heb fod yn Arian Parod | 241 | 276 | 276 | 228 | 276 | 0 | 276 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 276 |
| Cyfanswm Estyn | | 16,621 | 16,763 | 16,978 | 17,790 | 16,763 | 319 | 17,082 | 0 | -2,040 | 1,326 | 0 | 0 | 16,368 |
| Cyfanswm Adnoddau Cyllidol | | 1,812,640 | 1,800,854 | 1,819,348 | 1,836,726 | 1,800,854 | 11,870 | 1,812,724 | 369 | 0 | 38,114 | 697 | 0 | 1,851,904 |
| Cyfanswm Adnoddau Anghyllidol | | 263,512 | 267,594 | 267,594 | 265,669 | 267,594 | 0 | 267,594 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 267,594 |
| ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU | | 2,076,152 | 2,068,448 | 2,086,942 | 2,102,395 | 2,068,448 | 11,870 | 2,080,318 | 369 | 0 | 38,114 | 697 | 0 | 2,119,498 |

## Cyfalaf

| | | 2024-25 | 2025-26 | | | 2026-27 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Chwefror 2025) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2025) | Alldro a Ragwelir (Cyfnod 5) | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Newidiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Trosglwyddiadau o MEG i MEG | Trosglwyddiadau o fewn MEG | Cyllid Cylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Cyllid Anghylchol Ychwanegol ers Diwygio'r Llinell Sylfaen | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) |
| | | £000s | | | | | | | | | | | | |
| Addysgu ac Arweinyddiaeth | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 183 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 180 | 0 | 0 | 180 |
| Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth | | 183 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 180 | 0 | 0 | 180 |
| Ystadau a Darpariaethau TG | Seilwaith Addysg | 384,255 | 371,000 | 371,000 | 370,847 | 371,000 | 0 | 371,000 | 0 | 0 | 7,110 | 0 | 0 | 378,110 |
| Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG | | 384,255 | 371,000 | 371,000 | 370,847 | 371,000 | 0 | 371,000 | 0 | 0 | 7,110 | 0 | 0 | 378,110 |
| Cymorth Dysgwyr Ôl-16 | Gweinyddu Cymorth i Fyfyrwyr | 1,584 | 2,500 | 2,500 | 2,723 | 2,500 | 0 | 2,500 | 0 | 0 | 200 | 0 | 0 | 2,700 |
| Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16 | | 1,584 | 2,500 | 2,500 | 2,723 | 2,500 | 0 | 2,500 | 0 | 0 | 200 | 0 | 0 | 2,700 |
| Addysg Uwch | CCAUC – Gwariant ar Raglenni | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Addysg Uwch | | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Drydyddol | Medr – Gwariant ar Raglenni | 18,580 | 500 | 500 | 500 | 500 | 0 | 500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 500 |
| Cyfanswm Addysg Drydyddol | | 18,580 | 500 | 500 | 500 | 500 | 0 | 500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 500 |
| Cymwysterau | Cymwysterau Cymru | 233 | 250 | 250 | 250 | 250 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| Cyfanswm Cymwysterau | | 233 | 250 | 250 | 250 | 250 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| Cymraeg mewn Addysg | Cymraeg mewn Addysg | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg | | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Estyn | Estyn – Gwariant ar Raglenni | 70 | 250 | 250 | 180 | 250 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| Cyfanswm Estyn | | 70 | 250 | 250 | 180 | 250 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF GYFFREDINOL | | 404,919 | 374,500 | 374,500 | 374,500 | 374,500 | 0 | 374,500 | 0 | 0 | 7,490 | 0 | 0 | 381,990 |
| Ystadau a Darpariaethau TG | Seilwaith Addysg – Amser Llawn | 9,597 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Seilwaith Addysg – Ad-daliadau | -1,686 | -1,701 | -1,941 | -1,941 | -1,701 | 1,701 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,968 | -1,968 |
| Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG | | 7,911 | -1,701 | -1,941 | -1,941 | -1,701 | 1,701 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,968 | -1,968 |

Tudalen y pecyn 84

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF AMSER LLAWN | 7,911 | -1,701 | -1,941 | -1,941 | -1,701 | 1,701 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,968 | -1,968 |
| ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF | 412,830 | 372,799 | 372,559 | 372,559 | 372,799 | 1,701 | 374,500 | 0 | 0 | 7,490 | 0 | -1,968 | 380,022 |

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

| | | 2024-25 | 2025-26 | | | 2026-27 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Chwefror 2025) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2025) | Alldro a Ragwelir (Cyfnod 5) | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) |
| | | £000s | | | | | | |
| Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME | Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME – Adnoddau | -186,862 | -100,842 | -113,681 | -113,681 | -100,842 | -62,793 | -163,635 |
| Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16 | | -186,862 | -100,842 | -113,681 | -113,681 | -100,842 | -62,793 | -163,635 |
| ADDYSG – CYFANSWM AME Y GYLLIDEB ADNODDAU | | -186,862 | -100,842 | -113,681 | -113,681 | -100,842 | -62,793 | -163,635 |
| Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME | Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME – Cyfalaf | 1,464,658 | 1,353,163 | 1,386,253 | 1,380,629 | 1,353,163 | 89,315 | 1,442,478 |
| Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16 | | 1,464,658 | 1,353,163 | 1,386,253 | 1,380,629 | 1,353,163 | 89,315 | 1,442,478 |
| ADDYSG – CYFANSWM AME Y GYLLIDEB CYFALAF | | 1,464,658 | 1,353,163 | 1,386,253 | 1,380,629 | 1,353,163 | 89,315 | 1,442,478 |
| ADDYSG – CYFANSWM AME Y GYLLIDEB | | 1,277,796 | 1,252,321 | 1,272,572 | 1,266,948 | 1,252,321 | 26,522 | 1,278,843 |

## Atodiad B – Dyraniadau'r MEG Addysg ar gyfer 2026-27

| MEG Addysg: Newidiadau i'r Gyllideb Refeniw | Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2026-27 £000s |
|---|---|---|
| Dyraniadau Refeniw Cylchol o Gronfeydd Wrth Gefn: | | |
| Cyflog y Sector Cyhoeddus – 2026-27 | | |
| Adnodd | Cwricwlwm ac Asesu | 33 |
| Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 80 |
| Dysgu (Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru) | Datblygu a Chymorth Athrawon | 51 |
| Cymwysterau Cymru | Cymwysterau Cymru | 183 |
| Medr (gan gynnwys colegau AB a dosbarthiadau chweched dosbarth) | Medr – Gwariant ar Raglenni | 8,119 |
| Rhaglen Hwb | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 51 |
| Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu | Seilwaith Addysg | 9 |
| Estyn | Estyn – Gwariant ar Raglenni | 326 |
| Cyfanswm Dyraniadau Cyflog | | 8,852 |
| Dyraniadau Ychwanegol | | |
| Rhaglen cymorth grant ac asesiadau personol y Cwricwlwm i Gymru | Cwricwlwm ac Asesu | 2,000 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 5,000 |
| Safonau Ysgolion – dysgu sylfaen, ac athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau eraill | Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 8,885 |
| Presenoldeb – Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, Ysgolion Bro a chyfoethogi | Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 2,500 |
| Medr – cefnogi effaith gylchol dyfarniad cyflog 2025/26, ADY mewn AB, Addysg Gychwynnol i Athrawon, Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a phrentisiaethau iau (£8.5m wedi'i gyllido o ail-flaenoriaethu BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr) | Medr – Gwariant ar Raglenni | 4,907 |
| Cymryd rhan yn PISA, TIMSS a PIRLS | Cymorth Safonau Ysgolion | 300 |
| Gwasanaethau cymorth cwmwl Hwb | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 300 |
| Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 3,000 |
| Ymarfer sy'n ystyriol o drawma a hunanladdiad | Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | 670 |
| Cyfnod arolygu chwe blynedd statudol (2024-2030) | Estyn – Gwariant ar Raglenni | 1,000 |
| Cyfanswm Dyraniadau Ychwanegol | | 28,562 |
| Cyfanswm cynnydd chwyddiannol | | 37,414 |
| Dyraniadau Penodol | | |
| Deddf y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) – unedau trochi yn y Gymraeg | Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 700 |
| Cyfanswm y Dyraniadau Refeniw Cylchol o Gronfeydd Wrth Gefn | | 38,114 |
| Dyraniadau Refeniw Anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn: | | |
| Dyraniadau wedi'u Clustnodi | | |
| Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 (effaith TAW) | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 697 |
| Cyfanswm Refeniw Anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn | | 697 |
| Cyfanswm Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn | | 38,811 |

| | | |
|---|---|---|
| Dyraniadau Cyfalaf Cylchol o Gronfeydd Wrth Gefn: | | |
| Dyraniadau | | |
| Cyfalaf Cyngor y Gweithlu Addysg | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 180 |
| Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu | Seilwaith Addysg | 7,110 |
| Costau gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr | Gweinyddu Cymorth i Fyfyrwyr | 200 |
| Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Cylchol o Gronfeydd Wrth Gefn | | 7,490 |
| Ad-daliadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i Gronfeydd Wrth Gefn | | |
| Coleg y Cymoedd – Campws Aberdâr | Seilwaith Addysg | -226 |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr – Academi STEAM | Seilwaith Addysg | -491 |
| Coleg Pen-y-bont – Campws Sgiliau Uwch Canol y Dref | Seilwaith Addysg | -1,000 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot – Cynllun Canol Tref Aberhonddu | Seilwaith Addysg | -251 |
| Cyfanswm Ad-daliadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i Gronfeydd Wrth Gefn | | -1,968 |
| Cyfanswm Trosglwyddiadau Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf | | 5,522 |
| CYFANSWM TROSGLWYDDIADAU O GRONFEYDD WRTH GEFN | | 44,333 |

# Atodiad C – Newidiadau sylweddol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26

Ar refeniw, mae'r BELau canlynol wedi gweld newidiadau sylweddol (dros £1m) rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 a Chyllideb Ddrafft 2026-27:

| Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2025-26<br>Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2025) | 2026-27<br>Cyllideb Ddrafft (Hydref 2025) | Symudiad |
|---|---|---|---|
| | £000s | | |
| Cwricwlwm ac Asesu | 25,051 | 26,757 | 1,706 |
| Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 67,261 | 72,261 | 5,000 |
| Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 169,238 | 178,123 | 8,885 |
| Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 156,250 | 158,750 | 2,500 |
| Medr – Gwariant ar Raglenni | 815,342 | 843,037 | 27,695 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 4,477 | 5,615 | 1,138 |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 283,262 | 269,248 | -14,014 |
| Gweinyddu Cymorth i Fyfyrwyr | 18,147 | 23,647 | 5,500 |
| Dysgu ar gyfer Troseddwyr | 11,066 | 7,328 | -3,738 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth | 15,079 | 11,380 | -3,699 |

BEL Cwricwlwm ac Asesu – Cynnydd o £1.7m

- Dyraniad o £2m yn 2026-27 i gefnogi rhaglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru, asesiadau personol a chefnogi Adnodd gyda'r cylch nesaf o ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus (gweler yr adran ar gyllid i wella ysgolion)
- Mae'r cynnydd yn is, sef £1.7m, oherwydd dau drosglwyddiad anghylchol sydd wedi'u cynnwys yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 ond nid Cyllideb Ddrafft 2026-27:
  - £0.2m o'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Adnodd i gefnogi dysgwyr ADY a darparu adnoddau ADY Cymraeg;
  - £0.1m o'r BEL Dull Ysgol Gyfan at Lesiant ar gyfer Adnodd i ddarparu adnoddau llesiant penodol (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol).
- Roedd y trosglwyddiadau sy'n weddill yn gylchol ac felly wedi'u nodi yn y ddwy gyllideb, ac mae hyn yn cynnwys £2.4m i mewn o'r BEL Cymraeg mewn Addysg ar gyfer Adnodd a £1.5m allan i'r BEL Cymorth Safonau Ysgolion am gymryd rhan yn TIMSS a PIRLS ac i hwyluso'r trefniant ar gyfer ariannu swyddi Addysg.
  - 

BEL Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) – Cynnydd o £5m

- Dyraniad o £5m yn 2026-27 i gefnogi ADY ymhellach (gweler yr adran ar ADY).

BEL Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) – Cynnydd o £8.9m

- Dyraniad o £8.9m yn 2026-27 i gefnogi dysgu sylfaen, ac athrawon a staff cymorth ymhellach mewn ysgolion a lleoliadau eraill (gweler yr adrannau ar gyllid i wella ysgolion ac addysg y blynyddoedd cynnar).

BEL Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) – Cynnydd o £2.5m

- £2.5m ychwanegol i gefnogi presenoldeb ymhellach (gweler yr adran ar absenoldeb disgyblion).

BEL Gwariant ar Raglenni Medr – Cynnydd o £27.7m

- Mae £5.2m wedi'i ddyrannu ar sail llinell sylfaen i mewn i 2026-27 mewn perthynas ag effaith dyfarniad cyflog 2025-26 i Medr, dosbarthiadau chweched dosbarth ac AB (roedd £9.6m a ddyrannwyd hefyd ar sail llinell sylfaen ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Atodol Gyntaf).
- Dyraniad ychwanegol o £21.5m i Medr yn 2026-27 i gefnogi cyflogau, effaith gylchol dyfarniad cyflog 2025/26, ADY mewn AB, AGA, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a phrentisiaethau iau. O'r cynnydd hwn, mae £13m yn cael ei ariannu o gynnydd chwyddiannol y MEG ac £8.5m o'r broses o ail-flaenoriaethu cyllid o'r BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr (gweler yr adran ar Medr).
- Mae £2.04m wedi'i drosglwyddo o BEL Gwariant ar Raglenni Estyn i Medr ddechrau ar ei gyfrifoldebau i ariannu Estyn ar gyfer arolygiadau addysg a hyfforddiant ôl-16 o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022.
- Caiff hyn ei wrthbwyso gan £1m o drosglwyddiadau anghylchol a nodwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf (£0.7m ar gyfer ADY mewn AB a £0.36m o MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i ddarparu'r grant galluogi i sefydliadau AB ac AU yn 2025-26).

BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol – Cynnydd o £1.1m

- Trosglwyddiadau anghylchol allan o'r BEL sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ond nad ydynt wedi'u hadlewyrchu yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, yn benodol: £0.7m i'r BEL Medr i gefnogi Sefydliadau Addysg Bellach i baratoi ar gyfer y Ddeddf ADY a'i rhoi ar waith; £0.242m i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu ar gyfer Adnodd i gefnogi dysgwyr ADY a darparu adnoddau ADY Cymraeg; a £0.153m i'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon ar gyfer lleoedd sy'n ystyriol o ADY ar yr MA Addysg (Cymru).

BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr – Gostyngiad o £14m

- Mae cyllid yn cael ei ail-flaenoriaethu o fewn y MEG yn unol â'r rhagolygon ar gyfer grantiau cymorth i fyfyrwyr AU sy'n seiliedig ar alw, gyda £8.5m i'r BEL Medr i gefnogi blaenoriaethau addysg drydyddol; a £5.5m i'r BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr i gefnogi ymrwymiadau ar gyllideb Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

BEL Gweinyddu Cymorth i Fyfyrwyr – Cynnydd o £5.5m

- Fel y nodwyd uchod, mae £5.5m wedi'i ail-flaenoriaethu o'r BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr i gefnogi cyllideb Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

BEL Dysgu i Droseddwyr – Gostyngiad o £3.7m

- Trosglwyddiad o £3.7m yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc. Disgwylir trosglwyddiad drwy'r Gyllideb Atodol yn ystod y flwyddyn unwaith eto ar gyfer 2026-27 (gweler yr adran ar ddysgu i droseddwyr).

BEL Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth – Gostyngiad o £3.7m

- Trosglwyddiad o £3.7m o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2025-26. Disgwylir trosglwyddiad drwy'r Gyllideb Atodol yn ystod y flwyddyn unwaith eto ar gyfer 2026-27 (gweler yr adran ar waith ieuenctid).

## Atodiad D – Dyraniadau'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol 2025-26 yn ôl elfen ac awdurdod lleol

| Grant Addysg Awdurdodau Lleol 2025-26 | Safonau Ysgolion £ | Tegwch £ | Diwygio £ | Cymraeg 2050 £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3,603,001 | 2,439,378 | 1,613,862 | 373,893 | **8,030,133** |
| Gwynedd | 6,151,693 | 3,825,158 | 2,612,835 | 735,885 | **13,325,570** |
| Conwy | 5,419,058 | 4,507,366 | 2,392,537 | 350,354 | **12,669,315** |
| Sir Ddinbych | 5,574,151 | 5,050,388 | 2,359,734 | 362,337 | **13,346,610** |
| Sir y Fflint | 8,087,294 | 6,629,088 | 3,280,398 | 361,224 | **18,358,005** |
| Wrecsam | 7,311,884 | 6,841,326 | 2,906,744 | 379,844 | **17,439,797** |
| Powys | 6,034,095 | 3,861,488 | 2,637,172 | 486,074 | **13,018,829** |
| Ceredigion | 3,427,517 | 2,403,177 | 1,499,666 | 406,508 | **7,736,867** |
| Sir Benfro | 6,420,036 | 4,352,052 | 2,585,371 | 391,174 | **13,748,632** |
| Sir Gaerfyrddin | 9,890,675 | 7,594,482 | 3,932,862 | 677,820 | **22,095,839** |
| Abertawe | 13,321,399 | 13,172,293 | 4,771,414 | 537,019 | **31,802,125** |
| Castell-nedd Port Talbot | 7,564,593 | 8,289,456 | 3,097,357 | 406,612 | **19,358,018** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7,949,658 | 7,869,030 | 3,235,399 | 361,403 | **19,415,490** |
| Bro Morgannwg | 8,083,599 | 6,010,823 | 3,136,603 | 360,365 | **17,591,390** |
| Rhondda Cynon Taf | 13,636,231 | 12,567,416 | 5,238,375 | 644,503 | **32,086,526** |
| Merthyr Tudful | 3,580,999 | 3,649,462 | 1,517,442 | 203,985 | **8,951,888** |
| Caerffili | 9,948,802 | 10,149,817 | 3,871,339 | 479,948 | **24,449,906** |
| Blaenau Gwent | 3,905,682 | 3,542,474 | 1,598,161 | 174,169 | **9,220,486** |
| Torfaen | 5,169,677 | 4,922,308 | 2,145,682 | 269,084 | **12,506,750** |
| Sir Fynwy | 3,981,603 | 2,580,737 | 1,769,807 | 260,677 | **8,592,824** |
| Casnewydd | 9,985,715 | 9,995,135 | 3,650,566 | 438,695 | **24,070,111** |
| Caerdydd | 20,188,175 | 26,005,768 | 7,404,675 | 813,769 | **54,412,387** |
| **Cymru** | **169,235,535** | **156,258,622** | **67,258,002** | **9,475,341** | **402,227,500** |

## Atodiad E – Dyraniadau Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd 2025-26 yn ôl awdurdod lleol

| Awdurdod Lleol | Dyraniad Grant Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd<br>(gan gynnwys ffi weinyddol)<br>2025-26<br>£ |
|---|---:|
| Ynys Môn | 1,993,616 |
| Gwynedd | 3,403,227 |
| Conwy | 2,903,490 |
| Sir Ddinbych | 2,856,022 |
| Sir y Fflint | 4,557,903 |
| Wrecsam | 3,978,699 |
| Powys | 3,805,897 |
| Ceredigion | 1,969,616 |
| Sir Benfro | 3,759,497 |
| Sir Gaerfyrddin | 5,915,247 |
| Abertawe | 6,724,854 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3,624,562 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4,715,771 |
| Bro Morgannwg | 4,702,438 |
| Rhondda Cynon Taf | 7,609,661 |
| Merthyr Tudful | 2,071,483 |
| Caerffili | 5,249,642 |
| Blaenau Gwent | 1,950,949 |
| Torfaen | 2,636,288 |
| Sir Fynwy | 2,668,822 |
| Casnewydd | 5,412,843 |
| Caerdydd | 10,547,818 |
| CYFANSWM | 93,058,345 |

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Abigail Harris
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Alex Howells
Prif Weithredwr, AaGIC

13 Tachwedd 2025

Annwyl Ms Harris, Ms Howells

Diolch am eich ateb dyddiedig 3 Tachwedd 2025 ynglŷn â swyddi gwag ar gyfer carfan Mawrth 2023 o fyfyrwyr Nyrsio Oedolion.

Trafododd y Pwyllgor hyn yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd a chytunodd y dylwn ysgrifennu yn ôl atoch gyda nifer o bwyntiau pellach, sydd wedi'u nodi isod.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod:

1. Yn eich ymateb, rydych yn cadarnhau y bydd 65 o raddedigion o Brifysgol Abertawe ar gyfer y maes nyrsio oedolion ac nad oes swyddi ar gael ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Pam mae cymaint o anghysondeb rhwng nifer y lleoedd hyfforddi ym maes nyrsio oedolion a gynigir ar gyfer carfan Mawrth 2023, a nifer y swyddi gwag?
2. Beth yw'r rhesymau nad oes unrhyw swyddi wedi dod ar gael yn y maes hwn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ystod y broses symleiddio ddiweddar? A yw pwysau cyllidebol neu rewi recriwtio wedi bod yn ffactor?
3. Pam mae'r wybodaeth hon wedi dod i'r amlwg mor hwyr, fel mai dim ond yn ddiweddar y cafodd myfyrwyr wybod amdani? Pryd y daethoch yn ymwybodol na fyddai unrhyw swyddi ar gael ar gyfer y garfan hon?
4. Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd ers dod yn ymwybodol na fyddai unrhyw swyddi ar gael?
5. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â charfan nyrsio oedolion Mawrth 2023 – a ydych nawr, neu a ydych yn gobeithio bod, mewn sefyllfa i gynnig unrhyw swyddi nyrsio oedolion i'r garfan hon?
6. Pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer y garfan nyrsio oedolion nesaf sy'n graddio yn 2026 – a ydych yn disgwyl iddynt fod mewn sefyllfa debyg o ran swyddi gwag ym maes nyrsio oedolion?

7. O ystyried yr anghysondeb rhwng lleoedd hyfforddi a swyddi sydd ar gael ar gyfer carfan Mawrth 2023, pa gamau yr ydych yn eu cymryd mewn perthynas â chynllunio ar gyfer lleoedd hyfforddi yn y dyfodol?
8. I AaGIC: yn eich ateb, rydych yn nodi bod effaith gadarnhaol mwy o addysg a hyfforddiant, y rhaglen gadw genedlaethol a recriwtio rhyngwladol o bosibl yn cael effaith ar argaeledd swyddi gwag i raddedigion mewn rhai meysydd a phroffesiynau. Rydych yn dweud bod angen gwaith cydweithredol cryf rhwng sefydliadau'r GIG a'ch bod yn chwarae rôl allweddol wrth ddod â phartneriaid at ei gilydd. A allwch roi rhagor o wybodaeth am yr ardaloedd a'r swyddi sy'n cael eu heffeithio gan hyn, a'r camau sy'n cael eu cymryd? A allwch hefyd roi manylion am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y myfyrwyr sy'n graddio fesul maes a'r swyddi gwag sydd ar gael ym mhob bwrdd iechyd ar gyfer pob maes nyrsio, ffisiotherapi a gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol eraill?
9. I AaGIC: Yn gysylltiedig â'r uchod, rydym wedi bod yn clywed yn anecdotaidd am ddiffyg swyddi ar gyfer myfyrwyr meddygol a meddygon sy'n cwblhau eu hyfforddiant sylfaen ac sy'n chwilio am hyfforddiant arbenigol. A ydych yn ymwybodol o hyn, a pha gamau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â'r mater?

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a Chyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb buan.

Yn gywir



Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3.2

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPlant@senedd.cymru

19 Tachwedd 2025

Annwyl Buffy

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Medi yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor pan ddarperais dystiolaeth ar yr ymchwiliad ynghylch recriwtio a chadw athrawon. Gweler isod yr wybodaeth yr ymrwymais i'w darparu mewn perthynas â maint dosbarthiadau mewn ysgolion uwchradd ac ymatebion i'r cwestiynau na chawsoch gyfle i'w trafod yn ystod y sesiwn.

**Diweddariad ar ddata mewn perthynas â maint dosbarthiadau mewn ysgolion uwchradd**

Cesglir data ar faint dosbarthiadau mewn ysgolion babanod ac iau yn flynyddol gan ei fod yn ofynnol o dan Ddfeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae'r data y cyfeiriais ato yn ystod sesiwn y pwyllgor i'w gweld yma: [Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2025]

Mae'r Cyfrifiad Ysgolion yn casglu gwybodaeth am faint dosbarthiadau mewn ysgolion uwchradd ond nid yw'n cael ei chyhoeddi. Mae'r data yn cael eu casglu ar gyfer y trydydd cyfnod yn amserlen yr ysgol ar ddiwrnod y Cyfrifiad yn unig ac nid yw'n ddangosydd dibynadwy o faint yr holl ddosbarthiadau sy'n rhedeg mewn ysgolion uwchradd yn ystod cylch wythnos neu bythefnos amserlen arferol. Mesur mwy priodol ar gyfer ysgolion uwchradd yw'r gymhareb disgybl-athro (CDA) sy'n cael ei chyhoeddi'n flynyddol. Mae'r Gymhareb hon yn cael ei chyfrifo drwy rannu nifer y disgyblion cyfwerth ag amser llawn (FTE) â nifer yr athrawon cymwysedig (penaethiaid, penaethiaid dros dro, penaethiaid cynorthwyol, dirprwy benaethiaid ac athrawon cymwysedig eraill). Y CDA mewn ysgolion uwchradd ym mis Ionawr 2025 oedd 17.5. Mae'r CDA wedi cynyddu mewn ysgolion meithrin, cynradd, canol ac uwchradd yn 2025, ond mae'n is nag yn 2021 ym mhob sector heblaw'r uwchradd. Gellir dod o hyd i'r data yn nhabl 9 o'r daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad ystadegol hwn: [Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2025.]

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1. **Mae'r Pwyllgor wedi clywed bod problemau yn y ffordd y mae darparwyr Addysgu Gychwynnol Athrawon yn gallu cynllunio darpariaeth o ystyried yr amser mae'n cymryd rhwng UCAS yn cynnig lle AGA a'r myfyriwr yn ei dderbyn.
Mae'r Pwyllgor hefyd wedi clywed bod rhaid i fyfyrwyr sydd am wneud cais am gwrs ôl-radd gael mynediad at y rhan o wefan UCAS sydd ar gyfer israddedigion. A ydych chi'n ymwybodol o'r materion hyn, a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau ag UCAS amdanynt, ac i ba raddau yr ydych chi'n gallu dylanwadu arnynt?**

Rydym yn ymwybodol o'r  materion hyn, ac mae fy swyddogion wedi gweithio gydag UCAS a'n Partneriaethau AGA i'w datrys. O'r blaen, roedd gan UCAS broses ymgeisio bwrpasol ar gyfer hyfforddi athrawon a ddefnyddiwyd gan Brifysgolion y DU. Fodd bynnag, pan sefydlodd Lloegr eu system ymgeisio eu hunain, sy'n cynnwys rhaglenni hyfforddi athrawon mewn ysgolion, nad oes modd ymgeisio amdanynt drwy UCAS, penderfynodd UCAS gau ei system ymgeisio am hyfforddi athrawon ar gyfer prifysgolion. Effeithiodd y newid hwn ar Gymru a'r Alban. Gweithiodd fy swyddogion gydag adran addysg Llywodraeth y DU i sicrhau na fyddai'r system newydd yn Lloegr ar gyfer ymgeisio i hyfforddi fel athrawon  yn effeithio ar recriwtio trawsffiniol a chynhaliwyd trafodaethau hefyd ynghylch gallu darparwyr Cymru i ddefnyddio system ymgeisio newydd Lloegr. Ar y pryd penderfynwyd nad oedd yn ymarferol.

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymchwilio i ddatblygu a rhedeg system ymgeisio bwrpasol ar gyfer AGA yng Nghymru, ond roedd arbedion graddfa yn golygu nad oedd hyn yn ymarferol ar y pryd.

Rydym wedi gweithio gydag UCAS a'n Partneriaethau AGA i ddatrys problemau blaenorol sy'n ymwneud â ffyrdd o weithio o dan system ymgeisio israddedig gyffredinol UCAS. O ystyried y problemau parhaus sy'n cael eu profi gan ein darparwyr, byddwn yn edrych eto ar atebion posibl ar gyfer ein system AGA yng Nghymru.

Mae gan brifysgolion ac UCAS eu trefniadau a'u rhwymedigaethau cytundebol eu hunain, ac mae gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu neu gael effaith yn gyfyngedig yn hyn o beth. Mae'r penderfyniad i ddefnyddio UCAS yn fater i'r Partneriaethau AGA; rydym yn ymwybodol nad yw pob un o'n Partneriaethau AGA yn gwneud hynny.

2. **Mae'r Pwyllgor wedi clywed pryderon ynghylch llwybrau i arweinyddiaeth ysgolion a'r CPCP mewn perthynas â'r cap ar niferoedd ac a yw'n ddigon eang. A ydych chi'n ymwybodol o'r pryderon hyn a sut y gellir mynd i'r afael â nhw?**

Mae datblygu, meithrin ac ysbrydoli arweinwyr ysgol nawr ac ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn ymrwymiad allweddol. Mae arnom eisiau datblygu'r genhedlaeth nesaf o benaethiaid i arwain ein hysgolion drwy ein hagenda diwygio addysg er mwyn ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc.

Rwy'n cydnabod bod swydd pennaeth ysgol yn werth chweil ond heriol. Ein nod yw sicrhau bod pob darpar benaethiaid yn cael eu cefnogi a'u datblygu wrth iddynt gymryd y cam nesaf yn eu gyrfaoedd. Rwyf hefyd eisiau sicrhau bod cefnogaeth a chyfleoedd parhaus i'n penaethiaid profiadol gael  datblygu hefyd.

Bydd Dysgu nawr yn bwrw ymlaen â'r gwaith o adolygu'r holl raglenni a chymorth presennol ar gyfer arweinyddiaeth sydd ar gael i arweinwyr canol ac uwch a phenaethiaid profiadol.
Gan weithio gydag awdurdodau lleol, bydd Dysgu'n datblygu darpariaeth sy'n diwallu anghenion ein harweinwyr presennol a rhai'r dyfodol mewn amrywiaeth o feysydd. Mae angen i ni sicrhau bod cymorth ar gael i arweinwyr rwydweithio, rhannu profiadau ac i ddatblygu eu sgiliau arwain trwy gyfres gydlynol o ddysgu proffesiynol.

Rwy'n ymwybodol o rai o'r pryderon ynglŷn â'r cap ar niferoedd ar gyfer yr CPCP. Yn dilyn adolygiad helaeth o'r cymhwyster ar gyfer penaethiaid, dechreuodd y rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer datblygu penaethiaid y dyfodol ym mis Ionawr 2025. Gan fod hon yn rhaglen newydd, roedd arnom eisiau sicrhau ei bod yn cael ei phrofi'n drylwyr gyda nifer cyfyngedig o gyfranogwyr yn gyntaf. Mae 48 o unigolion yn y garfan gyntaf a byddant yn cael eu cefnogi drwy amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau. Dechreuodd ail garfan o 48 y rhaglen ym mis Medi 2025. Yn dilyn y cyfnod peilot, byddwn yn gweithio gyda Dysgu i adolygu nifer y cyfranogwyr y gellir eu hariannu i ymgymryd â'r rhaglen yn y dyfodol.

Mae'n bwysig nodi yn y cyd-destun hwn bod dros 700 o bobl yn gweithio mewn ysgolion ledled Cymru sydd eisoes yn meddu ar y CPCP. Felly, mae angen i ni gefnogi'r unigolion hynny i gymryd y cam i ddod yn bennaeth, yn ogystal â datblygu'r rhai nesaf yn y biblinell. Byddaf yn gofyn i Dysgu weithio gydag awdurdodau lleol i nodi'r unigolion hyn sydd eisoes yn meddu ar CPCP a datblygu help iddynt gymryd eu camau nesaf.

3. **Yn ôl tystiolaeth Estyn, nid oes unrhyw ddulliau cenedlaethol i nodi arweinwyr y dyfodol a darparu llwybrau i arweinyddiaeth i’r rhai sydd ar ddechrau eu gyrfa. I ba raddau y mae hyn yn effeithio ar recriwtio a chadw arweinwyr ysgolion ac ym mha ffyrdd yr ydych chi'n credu bod gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o ran gwella hyn? Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch gyfeirio at y gwaith y bydd Dysgu yn ei wneud i adolygu'r rhaglenni arweinyddiaeth presennol gyda'r bwriad o ddatblygu darpariaeth sy'n diwallu anghenion arweinwyr posibl y dyfodol. A ydych chi'n gwybod beth yw'r amserlen ar gyfer y gwaith cychwynnol hwn, ac a fydd yn llywio datblygiad y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg?**

Rwy'n cytuno bod angen gwell dull i nodi ein darpar arweinwyr. Yn ogystal â'm hateb i gwestiwn 2 uchod, mae angen i ni hefyd weithio'n glos gydag awdurdodau lleol i wella cynllunio'r gweithlu ar sail gwell dealltwriaeth o nifer y dysgwyr a ragwelir a data demograffig. Mae hyn yn gymhleth, ond mae'n hanfodol ein bod yn datblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r galw am athrawon a chynllunio olyniaeth ar gyfer arweinwyr ysgolion dros y 5-10 mlynedd nesaf. Bydd y Cynllun Gweithlu Addysg Strategol yn nodi sut y byddwn yn bwrw ymlaen â hyn .

Rwyf wedi bod yn glir gyda Dysgu y bydd y rhaglenni arweinyddiaeth yn flaenoriaeth gychwynnol yn ystod y cyfnod pontio. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i adolygu'r rhaglenni arweinyddiaeth presennol, gan weithio gyda phartneriaid i nodi bylchau yn y ddarpariaeth. Mae Dysgu hefyd yn cyfrannu at lunio a chyflwyno'r peilot CPCP.

4. **Mae'r Pwyllgor wedi clywed y gallai fod tangynrychiolaeth o athrawon ag anableddau yn y gweithlu. I ba raddau yr ydych chi'n cytuno â hyn ac a ydych chi wedi ystyried unrhyw gymhellion neu ffyrdd eraill o gefnogi mwy o bobl anabl i ddod yn athrawon?**

Mae gan ein Partneriaethau AGA gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae angen iddynt sicrhau bod eu polisi derbyn yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o ymgeiswyr posibl. Yn ogystal, o dan feini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer Achredu Rhaglenni AGA yng Nghymru, rhaid i Bartneriaethau AGA ddefnyddio eu data recriwtio, ymgeisio a dethol i wella ansawdd ac amrywiaeth y myfyrwyr y maent yn eu derbyn a sicrhau bod eu prosesau'n deg. Asesir hyn a'i fonitro gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

Mae data ar nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl anabledd i'w gweld yn y tabl isod. Yn 2021/22 nododd bron i 13% o fyfyrwyr fod ganddynt anabledd hysbys. Dyma'r data diweddaraf sydd gennym.

**Blynyddoedd cyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl anabledd a blwyddyn, 2010/11 i 2021/22**

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dim anabledd hysbys** | | 1075 | 960 | 950 | 1445 | 1400 |
| **Anabledd hysbys** | | 125 | 105 | 125 | 235 | 210 |
| | Anhawster dysgu penodol e.e. dyslecsia | 50 | 55 | 60 | 110 | 80 |
| | Dall/ gweld yn rhannol | 5 | . | . | . | . |
| | Byddar/ Amhariad ar y clyw | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| | Amhariad corfforol / problemau symudedd | 5 | . | 5 | . | 5 |
| | Cyflwr iechyd meddwl, e.e. iselder | 20 | 15 | 30 | 55 | 60 |
| | Amhariad cymdeithasol /cyfathrebu e.e. anhwylderau'r sbectrwm awtistig | 5 | 5 | . | 10 | 5 |
| | Salwch / cyflwr iechyd hir sefydlog e.e. diabetes, canser | 20 | 15 | 10 | 25 | 15 |
| | Anableddau lluosog | 10 | 5 | 5 | 20 | 25 |
| | Anabledd arall heb ei restru | 15 | 10 | 10 | 15 | 15 |
| **Cyfanswm (yr holl ddarpar athrawon)** | | **1200** | **1065** | **1080** | **1680** | **1610** |

Ffynhonnell: HESA

Dangosodd data o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion 2021 (CYBLD) fod gan 8.2% o bobl ifanc rhwng 5 a 15 oed anabledd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i wneud gweithgareddau dydd i ddydd ychydig neu lawer.

O wybodaeth yng Nghyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgol (SWAC), dywedodd 210 o athrawon (0.8%) fod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy yn 2023/24. Fodd bynnag, efallai bod ffactorau sy'n effeithio'r ffordd y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi, fel ei bod yn well gan lawer beidio â datgan eu hanabledd gan eu bod yn ystyried nad yw'n effeithio ar eu gallu i ymgymryd â dyletswyddau eu swydd.

Y diffiniad o anabledd a ddefnyddir yn SWAC a CYBLD 2021 yw pan adroddir bod person â chyflwr neu salwch iechyd corfforol neu feddyliol sydd wedi para neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy, a bod hynny'n lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd.

Felly, er y dylem drin y data yn ofalus, ymddengys bod tangynrychiolaeth sylweddol o athrawon ag anableddau yn y gweithlu. Rydym yn edrych ar hyn, ac ar amrywiaeth y gweithlu yn ehangach, fel rhan o ddatblygu ein cynllun gweithlu addysg strategol.

5. **Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg wrth y Pwyllgor fod y gweithlu addysgu yng Nghymru yn cael ei ategu gan rai sydd wedi ennill eu Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) yn Lloegr. O ystyried na fyddent wedi cael profiad o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar ei weithredu’n llwyddiannus?**

Rwy'n falch bod athrawon sydd wedi hyfforddi yn Lloegr yn dewis symud i Gymru i addysgu. Mae llawer ohonynt rwy'n siŵr yn dod o Gymru, tra bod eraill efallai yn dewis symud i Gymru oherwydd y diwygiadau helaeth yr ydym yn eu gwneud i wella addysg. Rwy'n awyddus i ddeall eu rhesymau dros symud i Gymru i weithio yn well a byddaf yn gofyn i'r CGA am yr wybodaeth hon.

Fodd bynnag, fel y nodwch chi, mae angen i ni sicrhau bod yr unigolion hyn yn deall Cwricwlwm Cymru a'n diwygiadau eraill.

Mae'n ofynnol i bob athro, waeth ble maent wedi ennill statws athro cymwysedig, gwblhau cyfnod sefydlu statudol er mwyn addysgu yng Nghymru. Bydd yn ofynnol i'r rhai sydd wedi hyfforddi yn Lloegr ac yna'n symud i Gymru i addysgu ymgymryd â dysgu proffesiynol ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys Cwricwlwm Cymru a'r polisïau a'r arferion yn ein hysgolion sy'n wahanol i rai Lloegr fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu statudol.

Bydd ein cefnogaeth bresennol ar gyfer Cwricwlwm Cymru hefyd yn agored i bob athro yng Nghymru, a byddwn yn dymuno i ysgolion sy'n penodi athrawon o'r tu allan i Gymru roi blaenoriaeth i'r dysgu proffesiynol hwn. Gan weithio gyda Dysgu, gallem gyfeirio cyfleoedd ac adnoddau dysgu proffesiynol perthnasol i'r rhai sy'n newydd i'r system addysg yng Nghymru fel bod yr holl gymorth ar gael yn hawdd iddynt.

Fel rhan o'r Cynllun Pontio, rydym wedi targedu'n benodol athrawon sy'n siarad Cymraeg ac yn byw y tu allan i Gymru ar hyn o bryd a fyddent yn gallu dod yn ôl i addysgu yn ein hysgolion. Dros y 6 blynedd diwethaf, mae 8 o unigolion wedi dychwelyd drwy'r rhaglen, o Loegr a thu hwnt. Fel rhan o'r rhaglen, maent yn cael amser i arsylwi a gweithio gyda'u cymheiriaid i ddatblygu eu dealltwriaeth o Gwricwlwm Cymru. Mae cyfle i ni ddysgu o'u profiadau nhw i sicrhau ein bod yn darparu digon o help i unrhyw athrawon cymwys sy'n dymuno symud i Gymru yn y dyfodol.

**6. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gyfeirio’n gryno at gynorthwywyr addysgu weithiau’n cyflenwi yn lle athrawon mewn gwersi. I ba raddau yr ydych chi'n deall maint y dystiolaeth eu bod nhw a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch yn cael eu gofyn i addysgu dosbarthiadau? Sut y gallwn ni ddeall hyn yn well a mynd i'r afael â phryderon cysylltiedig?**

Rwy'n arbennig o bryderus am gyflog ac amodau ein cynorthwywyr addysgu. Fel y gwnes i'n glir yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 3 Medi, mae hwn yn un o fy mhrif flaenoriaethau i’r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg. Mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed ac yn haeddu, yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfiawnder cymdeithasol, cael eu cydnabod, eu talu a’u trin yn deg am y gwaith gwych y maent yn ei wneud.

Drwy'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, undebau a chyflogwyr, rydym wedi ymgymryd â gwaith i ddatblygu disgrifiadau swyddi cyffredin ar gyfer cynorthwywyr addysgu a cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU) mewn ymgais i safoni'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio mewn ysgolion. Rwy’n rhwystredig iawn nad yw’r gwaith hwn wedi’i weithredu ar lefel awdurdod lleol ac yn mynd i’r afael â hyn fel mater o flaenoriaeth gyda’n partneriaid cymdeithasol. Rwyf am sicrhau ein bod yn nodi, cytuno a chymryd camau yn y tymor byr, yn ogystal â gweithio ar ddiwygiadau tymor hwy megis datblygu opsiynau ar gyfer Corff Negodi Staff Cymorth Ysgolion.

I fod yn glir, dim ond pobl sydd â statws athro cymwysedig (SAC) sy'n cael eu cyflogi i addysgu, a elwir hefyd yn "waith penodedig" fel y'i diffinnir gan Reoliadau'r Cyngor Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 a Deddf Addysg (Cymru) 2014. Nid yw 'athrawon cymwysedig' yn cynnwys cynorthwywyr addysgu, CALU na staff cymorth eraill nad ydynt yn meddu ar SAC.

Fodd bynnag, gall pobl nad ydynt yn dal SAC ymgymryd â "gwaith penodol", o dan rai amgylchiadau. Caniateir iddynt addysgu naill ai fel 'athro anghymwysedig' (lle mae'r athro heb gymwysterau yn cael ei gyflogi am gyfnod cyfyngedig fel athro ysgol ac wedi'i gofrestru gyda CGA i ymgymryd â gwaith penodol) neu mewn amgylchiadau penodol am gyfnod cyfyngedig pan fyddant yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athrawon cymwysedig fel y'u diffinnir gan y ddeddfwriaeth. Ni all pobl sy'n cael eu cyflogi mewn ysgol fel CALU neu gynorthwywr addysgu fod yn athro ysgol at ddibenion y ddeddfwriaeth hyd yn oed os ydynt yn meddu ar SAC.

Mae'r dystiolaeth sydd gennym am CALU a chynorthwywyr addysgu y gofynnir iddynt addysgu dosbarthiadau yn anecdotaidd ar hyn o bryd. Nid yw'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn casglu data arno. Fodd bynnag, mae angen i ni ddatblygu dealltwriaeth o'r mater hwn, a byddaf yn gofyn i awdurdodau lleol fwrw ymlaen â'r gwaith hwn fel rhan o'n cynigion yng Nghynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Rwy'n cytuno nad yw'n dderbyniol gofyn i aelodau o staff ymgymryd â dyletswyddau sydd y tu hwnt i'w cylch gorchwyl. Mae'n gywir y dylai athro cymwys fod ar gael ac mae'r gofynion statudol yma yng Nghymru yn glir, fel y nodir uchod.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch unwaith eto i chi am eich gwaith parhaus a'ch cefnogaeth ar y mater hwn. Rwy'n disgwyl ymlaen at dderbyn eich adroddiad maes o law.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Keith Towler**

[redacted]

19th November 2025

Buffy Williams MS
Chair, Children, Young People, and Education Committee

Dear Buffy,

**Youth Work in Wales**

This is an important time for Youth Work in Wales. Following the snapshot inquiry your predecessor undertook in 2016 there has been a lot of work put into establishing a sustainable model for the delivery of youth work services in Wales. The Interim Youth Work Board, which I chaired, published a clear set of recommendations in *Time to Deliver (September 2021)* and since then the Youth Work Implementation Board has taken that work further.

You'll be aware that the Cabinet Secretary for Education consulted on a set of proposals. The sector engaged with the consultation and several of us raised some concern about the direction that work has now taken. Alun Michael, Howard Williamson, and I have written to the Cabinet Secretary to express our concerns. There are three main issues, amongst others, that I wanted to raise with you.

Firstly, the so called 'definition' of youth work is neither a definition or a statement that reflects the aspirations of a sustainable model of youth work delivery as set out in *Time to Deliver.*

Secondly, the proposal to establish a national body for youth work in Wales is welcomed by the sector but the rather top-down bureaucratic controlling body that seems to be envisaged is at odds with the offer of CWYVS and the WLGA to work with Welsh Government officials to develop a partnership model.

And, if there is to be a new framework for youth work with "Draft Directions' and 'Draft Statutory Guidance' as outlined in last year's consultation paper, with little or no amendment, I fear that would be a mistake as the proposals are unrealistic and unworkable.

To my knowledge a full set of responses to the consultation have not been published although I'm aware that others have also raised considerable concerns. Given it will be 10 years, at the end of this Senedd term, since your Committee's inquiry I wonder whether you would consider raising with the Cabinet Secretary the issues I've outlined by asking for an update on progress and seeking assurance that Welsh Governments next steps fully takes these into account.

We all know that youth work has faced challenges in recent years. We also know how valuable youth work is for children and young people in Wales. The Committee has set in train an opportunity to improve youth work delivery in Wales and so I hope you will take an active interest so we can get this right for children and young people.

I would be grateful if you would also share my letter with the membership of the Committee.

Yours sincerely,

[redacted]

**Keith Towler**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Jeremy Miles AS

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Dawn Bowden AS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Sarah Murphy AS

20 Tachwedd 2025

**Cais am wybodaeth bellach yn sgil y sesiwn dystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27**

Annwyl Jeremy, Dawn a Sarah

Diolch i chi a'ch swyddogion am fynd i'r sesiwn dystiolaeth ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, ar 19 Tachwedd 2025.

Fel inni sôn yn ystod y sesiwn, roedd yna faterion pellach inni fethu mynd i'r afael â nhw oherwydd cyfyngiadau amser. Rydym yn ystyried bod y materion hyn o bwys i'r broses graffu, ac o'r farn y gellir eu diwallu ar bapur. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod:

1. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwasanaeth cymorth iechyd meddwl brys 'Pwyswch 2' gwasanaeth 111 y GIG yn diwallu anghenion penodol plant a phobl ifanc ac yn darparu gwerth am arian? At hynny, rhowch fanylion y data sydd ar gael ar ddefnydd a chanlyniadau ar gyfer y grŵp oedran hwn, ynghyd ag unrhyw werthusiad a gynhaliwyd i lywio'r penderfyniad i brif ffrydio'r gwasanaeth hwn ar draws byrddau iechyd.


2. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran lleihau amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol plant o dan y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth? Sut fydd y £13.7 miliwn ychwanegol a datblygu Cod Ymarfer newydd yn sicrhau bod anghenion plant yn

cael blaenoriaeth briodol ar draws pob bwrdd iechyd, a bod gwelliannau o ran mynediad a darparu gwasanaethau yn cael eu cynnal?

3. Pa fanylion pellach allwch chi eu rhoi am y taliadau uwch ar gyfer practisau sy'n dechrau gweld plant pan eu bod nhw'n fabandod, o dan y contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd a lansiwyd ym mis Ebrill 2026? At hynny, sut y bydd y diwygiad hwn yn cefnogi mynediad a chanlyniadau gwell i blant, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gan gyfrannu at leihau anghydraddoldebau o ran iechyd y geg?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 1 Rhagfyr 2025.

Yn gywir,



Buffy Williams AS

Cadeirydd
y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3.5

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Comisiynydd Plant Cymru,
Rocio Cifuentes

21 Tachwedd 2025

**Gohebiaeth yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol**

Annwyl Rocio,

Diolch i chi a Tomos am ddod i sesiwn graffu flynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar 12 Tachwedd 2025. Roedd y sesiwn yn addysgiadol ac yn adeiladol, gan roi cyfle gwerthfawr i ni gael deialog ystyrlon â'ch swyddfa.

Fel y soniwyd yn ystod y sesiwn, roedd rhai materion ychwanegol yr oeddem am eu codi gyda chi, ac roeddem yn teimlo y gellid mynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol yn ysgrifenedig. Gan hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod:

1. Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar amrywiaeth o faterion arwyddocaol sy'n ymwneud ag addysg - gan gynnwys diwygiadau'r cwricwlwm ac ADY, safonau ysgolion, recriwtio a chadw athrawon, absenoldeb disgyblion ac aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod Senedd Ieuenctid Cymru yn edrych ar ymddygiad mewn ysgolion. I ba raddau fyddech chi'n dweud y gallai cyfuniad o'r materion addysg hyn greu'r 'storm berffaith' ar gyfer addysg oedran gorfodol y bydd angen mynd i'r afael â hi yn y Seithfed Senedd? Faint ydych chi'n pryderu am y cyfuniad hwn o heriau sy'n wynebu addysg?

2. I ba raddau ydych chi'n ymwybodol bod y geiriad "hybu safonau mewn ysgolion a cholegau" wedi'i ddileu o bedair blaenoriaeth ddatganedig y Prif Weinidog, ac a ydych chi'n ystyried bod y newid hwn yn arwydd o lai o bwyslais ar wella addysg? Cododd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog y mater hwn mewn llythyr at y Prif Weinidog a'r ymateb dyddiedig 17 Medi.

3. Dywed eich adroddiad blynyddol yn dweud bod eich gwaith achos yn cynnwys “llawer iawn o bryderon” am wasanaethau cymdeithasol, yn enwedig lleoliadau’n methu, oedi gydag asesiadau, a mynediad at eiriolaeth i blant mewn gofal. Sut fyddech chi'n asesu effaith gwaith craffu ein Pwyllgor ar ddiwygio radical o’r cymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal? A oes unrhyw beth wedi newid ers cyhoeddi ein hadroddiad yn 2023?

4. Mae trafnidiaeth yn fater sydd wedi codi mewn sawl un o'n hymchwiliadau ac mae eich maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd yn galw am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc dan 18 oed, a hefyd am adolygiad llawn o’r Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008 a'r canllawiau cysylltiedig. Beth yw eich asesiad o sut mae'r cynllun peilot presennol o docynnau am £1 yn mynd? I ba raddau y bydd hyn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion teithio gan ddysgwyr rydych chi'n ymdrin â nhw?

5. Rydych chi wedi cyhoeddi maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd 2026. Beth ydych chi'n ei weld fel y flaenoriaeth fwyaf ar gyfer newid deddfwriaethol ym mlwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd?

Roedd cytundeb hefyd y byddech chi'n darparu ystadegau i'r Pwyllgor ynglŷn â sut y clywodd y plant a'r bobl ifanc sy'n gofyn am gymorth gan eich tîm am eich swyddogaeth gwaith achos am y tro cyntaf.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 10 Rhagfyr 2025.

Yn gywir,

Buffy Williams AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3.6

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Tachwedd 2025

Annwyl Gadeirydd,

**Canlyniad cyfarfod Cyngor Gweinidogion Addysg y Deyrnas Unedig**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu ynghylch canlyniad chweched cyfarfod Cyngor Gweinidogion Addysg y Deyrnas Unedig, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 13 Tachwedd 2025.

Fel Ysgrifennydd arweiniol y Cabinet ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol hwn, roeddwn yn y cyfarfod ac yn ei gadeirio ar ran Llywodraeth Cymru.

Yn bresennol yn y cyfarfod oedd Paul Givan MLA, Gweinidog Addysg Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon; Jenny Gilruth MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau Llywodraeth yr Alban; a'r Farwnes Jacqui Smith AS, Gweinidog Gwladol yn yr Adran Addysg ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y Cwricwlwm, gan gydnabod bod pawb ar wahanol gamau o'r daith adolygu a diwygio. Roedd hyn yn gyfle pwysig i roi'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed a rhannu arferion gorau.

Fe wnaeth y Gweinidogion hefyd gydnabod bod cynnydd mewn ymddygiadau heriol mewn ysgolion ers pandemig COVID-19. Amlinellwyd y dulliau effeithiol sydd ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Ystyriodd y grŵp rôl Deallusrwydd Artiffisial mewn addysg a diogelwch ar-lein, gan roi pwyais arbennig ar baratoi dysgwyr ar gyfer byd sy'n cael ei yrru fwyfwy gan Ddeallusrwydd Artiffisial.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn olaf, croesawodd y Gweinidogion yr ymdrechion cydweithredol llwyddiannus a sicrhaodd fod myfyrwyr Chevening a myfyrwyr ysgoloriaeth lawn o Gaza yn cyrraedd yn ddiogel i ddechrau eu hastudiaethau ledled y Deyrnas Unedig yr hydref hwn. Disgwylir i'r myfyrwyr hyn chwarae rhan sylweddol wrth ailadeiladu Gaza yn y dyfodol. Er bod y mater hwn y tu allan i gyfrifoldebau adrannoli Gweinidog Addysg Gogledd Iwerddon, nodwyd yr wybodaeth ganddo.

Cytunwyd y byddai Llywodraeth yr Alban yn cynnal y cyfarfod nesaf. Bydd swyddogion yn cydweithio â'u cymheiriaid i osod y thema a'r agenda.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon